# Y DINESYDD

Chwefror 2024 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 484 £1.20



Côr Ysgol Melin Gruffydd

## Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

gweler tud. 7



Ela Pari - enillydd Tlws yr Ifanc



Côr CF1 - y Côr Buddugol

# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
Eirian a Gwilym Dafydd

***Golygydd Mawrth***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn **25 Chwefror** at:
miranda.cymru@gmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


Y DINESYDD
Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

## Tanysgrifiadau 2024 - 2025

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd a diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth i'r *Dinesydd* drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hi bellach yn amser i danysgrfio i'r *Dinesydd* am flwyddyn arall ac ynghlwm gyda rhifyn mis Chwefror fe geir y ffurflen danysgrifio. Fe welwch ein bod fel Pwyllgor wedi gorfod cynyddu'r prisiau eleni. Y prif reswm am hyn yw ein bod yn rhagweld y bydd y papur yn gwneud colled o ryw £1,500 o bunnoedd yn ystod y flwyddyn. Ond peidiwch â phoeni! Mae sefyllfa ariannol *Y Dineysdd* yn ddigon saff ar hyn o bryd ac mae gennym arian wrth gefn yn y banc. Ond er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r papur mae'n rhaid i ni wneud yn siwr ein bod yn codi digon o incwm i dalu ein costau blynyddol - costau argraffu, cysodi a phostio - sydd fel rydych chi i gyd yn gwybod - wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd pris y copi .pdf a'r copi caled a werthir yn y siopau hefyd yn codi o £1.20 o £1.50. Ry'n ni'n mawr obeithio y byddwch yn deall y penderfyniad.

Ry'n ni hefyd yn edrych i'r dyfodol a'r heriau sy'n wynebu'r papur o ran addasu i'r oes ddigidol. Mae dros 200 ohonoch bellach yn derbyn copi .pdf o'r *Dinesydd* drwy e-bost ac rydym yn siwr y bydd y duedd hon yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn ei gwneud yn haws i bobl danysgrifio, o fis Ebrill ymlaen, yn ogystal â'r dulliau talu presennol, o siec neu archeb sefydlog, bydd modd ichi hefyd dalu ar y wefan gyda cherdyn i dderbyn copïau .pdf. Y fantais fawr yma yw'r ffaith y byddwch yn gallu tansysgrifio mewn ychydig gliciau! Y gobaith wedyn yw y gallwn ddenu llawer mwy o danysgrifwyr newydd. Os bydd y system yn gweithio'n hwylus yna fe wnawn ni ystyried ei ddefnyddio ar gyfer copïau caled hefyd ochr yn ochr â'r drefn bresennol.

Ry'n ni'n mawr obeithio y byddwch i gyd yn parhau i danysgrfio, prynu a darllen *Y Dinesydd*. Mae cylchrediad y papur yn ddigon iach, gyda rhyw 580 o gopiau yn cael eu dosbarthu yn fisol ond allwn ni ddim llaesu dwylo! A'n nod fel Pwyllgor yw sicrhau bod *Y Dinesydd* yn cyrraedd gymaint o siaradwyr Cymraeg y ddinas a'r Fro ag sy'n bosibl ac yn ffynnu i'r dyfodol.

*Manon Phillips*
*(Cadeirydd pwyllgor Y Dinesydd)*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Cofiwch anogaeth Dewi"*

Erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd y Flwyddyn Newydd wedi hen basio â phawb bellach nôl yn y tresi wedi'r saib dros Ŵyl y Nadolig ac yn dechrau meddwl am ddathlu Gŵyl Ddewi! Bydd llawer ohonon ni o flaen y teledu y mis hwn a'r mis nesa yn gwylio Cystadleuaeth Rygbi'r Chwe Gwlad gan obeithio bydd ein tîm yn gwneud yn well eleni ar ôl dod yn bumed y llynedd a bron â derbyn y llwy bren!

Mae eleni yn siapio i fod yn flwyddyn hynod o ddiddorol yn y byd gwleidyddol gan y cynhelir Etholiad Arlywyddol yn yr Unol Daleithiau, Etholiad Gyffredinol ym Mhrydain ac Etholiad yn y Blaid Lafur yng Nghymru i ddewis olynydd i Mark Drakeford. Dim ond dau sy yn y râs a chawn wybod enw'r enillydd ym mis Mawrth mae'n debyg.

Unwaith eto yn anffodus rhaid cofnodi colledion i'r genedl yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf sef John Rhys cyn Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru, Leah Owen y gantores a'r hyfforddwraig ganu, Elisabeth Lloyd James gweddw'r athro Cymraeg Dan Lynn James odd wedi bod yn weithgar hefo Cyngor Ysgolion Sul am flynyddoedd, Richard Tudor y morwr a hwyliodd o gwmpas y byd ddwywaith, Vaughan Hughes y darlledwr a'r newyddiadurwr adnabyddus, J.P.R. Williams y seren rygbi enwog a Dave Burns o grŵp yr Hennessys.

Tu allan i Gymru bu farw yr actores enwog Glynis Johns yn Los Angeles a hithau yn gant oed. Cafodd ei geni yn 1923 yn Pretoria, De Affrig tra oedd ei rhieni ar daith yno. Odd hi'n Gymraes ochr ei thad sef yr actor Mervyn Johns a anwyd ym Mhenfro a'i addysgu yng Ngholeg Llanymddyfri. Odd ei mam yn hannu o Awstralia ac yn bianydd clasurol. Daeth Glynis Johns i amlygrwydd pan ymddangosodd yn y ffilm Disney *Mary Poppins* a hi odd yr actores gyntaf i ganu cân y cyfansoddwr Stephen Sondheim 'Send in the Clowns' ar Broadway.

Ar nodyn mwy canologol rhaid llongyfarch yr Urdd ar eu cynllun i gynorthwyo plant a phobl ifanc difreintiedig – ac mae llawer ohonyn nhw yng Nghymru – i fynychu gwersylloedd yr Urdd drwy wahodd y cyhoedd i noddi'r ieuenctid hyn drwy gyfrannu £180 i gronfa arbennig. Felly beth amdani bobl? Beth am anfon rhodd i sicrhau llwyddiant y cynllun hwn?!

Mae Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn dathlu ei 75 mlwyddiant eleni ac fel rhan o'r dathlu mae gobaith am weld hen dafarn y Vulcan a arferai sefyll ynghanol Caerdydd yn ail agor ar safle yn yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a bydd yn bosibl i'r cyhoedd archebu peint yn y dafarn a mwynhau awyrgylch y lle!

Tra'n sôn am ail agor, ar ôl blynyddoedd o fod heb orsaf fysiau newydd yng Nghaerdydd mae gobaith rŵan y bydd yr Orsaf yn agor y gwanwyn hwn – o'r diwedd! Mae nifer o broblemau wedi rhwystro agor yr orsaf newydd am ryw reswm.

Syndod a siom odd clywed am gau y dafarn boblogaidd 'Y Conway' ym Mhontcanna a hynny yn bennaf oherwydd y costau uchel o gynnal y lle mae'n debyg. Ar un adeg nôl yn y ganrif ddiwethaf bu'r 'Conway' yn gyrchfan i gannoedd o Gymru hen ac ifanc yn arbennig wedi i Ganolfan yr Urdd agor ar waelod Heol Conway ac ar ôl bod yn ymarfer Côr Aelwyd Caerdydd neu ddosbarth Cymraeg byddai pawb yn cymdeithasu yn y 'Conway' ac enwyd un o'r bariau yn Far Cymraeg a'r Bar arall ar gyfer y bobl leol yn bennaf! Cafwyd blwyddyn annifyr adeg yr Arwisgiad gan fod yr heddlu cudd yn cadw llygad ar y lle ac amheuwyd unrhyw ddiethrin odd yn cerdded i mewn i'r Bar Cymraeg! Dwy'n cofio Meg a Jac y landlordiaid hawddgar yn dweud wrtho'i unwaith bod yr heddlu cudd wedi bod yno gan ddangos nifer o luniau pobl iddyn nhw gan holi os on nhw wedi bod yn y dafarn yn ddiweddar!

Mae Caerdydd yn atynfa i filoedd o ymwelwyr erbyn hyn ac ar hyn o bryd mae cwmni llinell zip yn brysur ddatblygu cynllun fydd yn caniatáu i ymwelwyr esgyn i do ein Stadiwm Genedlaethol i edmygu'r golygfeydd cyn dod lawr i'r ddaear ar linell zip. Maen nhw'n gobeithio gwireddu'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Tybed faint o ddarllenwyr y golofn hon fydd yn barod i fentro profi'r atyniad hwn yng Nghaerdydd?!

Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru sef Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ond mae sôn rŵan am sefydlu Parc Cenedlaethol arall a hynny yn ardal Bryniau Clwyd sy eisoes wedi ei dynodi yn lle o harddwch naturiol arbennig. Ond dydy pawb ddim o blaid y syniad ac felly rhaid aros i weld beth ddaw o'r trafodaethau.

Dwy'i ddim wedi bod ar fy mocs sebon yn y golofn hon ers amser ond dros yr Ŵyl dwy'i wedi bod yn gweiddi at y radio a'r teledu wrth glywed Cymraeg gwallus nifer o bobl sy'n siarad ar Radio Cymru a S4C. Dyma flas o'r hyn a glywais – y stori hwn yn lle hon, dau gêm yn lle dwy, tri blynedd yn lle tair, dau ochr yn lle dwy, dau garfan yn lle dwy, eu ladd yn lle eu lladd, ac ati! Brysiaf i gadw cefn nifer o gyflwynwyr ar y radio a'r teledu sy'n siarad Cymraeg graenus ond mae'n destun pryder i mi wrth weld dirywiad yr iaith lafar.

Mae cyfnod cynnal gwasanaethau Plygain bellach ar ben am flwyddyn arall a gallwn edrych ymlaen at ddathlu Gŵyl Ddewi arall yn ein hanes. Cofiwch anogaeth Dewi sef i ni gyflawni'r "pethau bychain" o safbwynt yr iaith a dan ni i gyd yn hen ac ifanc yn gallu hybu'r iaith mewn gwahanol ffyrdd a thrwy hynny sicrhau bod calon y genedl yn dal i guro. Gŵyl Ddewi hapus i bawb!

# Merched y Wawr Caerdydd

Roedd naws Nadoligaidd i gyfarfod Rhagfyr MyW Caerdydd pan ddaeth Joy Aman a Iona Jones i'n diddanu gyda chadwyn o alawon y Nadolig. Dwy gerddores a dwy ffrind yw Joy a Iona – mae Iona yn soprano a Joy yn cyfeilio ar y piano. Cyfarfu'r ddwy yn wreiddiol wrth recordio ac maent wedi cydweithio ar lwyfannau dros y byd i gyd.

Cawsom noson gerddorol Nadoligaidd gyda chaneuon traddodiadol a chyfoes, ac roedd cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn hwyl y canu. Ychwanegwyd at y difyrrwch gan gwis diddorol a ddyfeisiwyd gan ein gwesteion. Clywsom ganeuon gan nifer o gyfansoddwyr Cymreig, a'r dasg i ni fel cynulleidfa oedd enwi'r cyfansoddwr – a rhai yn haws eu hadnabod nag eraill! Ymunodd pawb yn hwyl y noson ac wrth fwynhau paned a mins peis. Roedd yn noson arbennig – noson yn llawn ysbryd y Nadolig i gloi tymor o gyfarfodydd eithriadol ddiddorol ac amrywiol.

Ar 9 Ionawr, buom yn mwynhau sioe ffilmiau o'r enw 'Camera Ledled y Byd' gan Haydn Denman. Mae





Haydn wedi gweithio fel dyn camera ar raglenni dogfen, materion cyfoes a chwaraeon ym myd teledu a ffilm, gan deithio i eithafoedd y ddaear ac ennill dwy wobr BAFTA Cymru.

Wrth weithio ar gyfresi fel Ynysoedd y Byd, Mynyddoedd y Byd, Anialdiroedd y Byd, Afonydd y Byd, mae wedi ffilmio mewn mannau anghysbell a dramatig a chael cyfle i ymgysylltu ag amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau yn Yr India, Uganda, De Corea, Alaska, Ethiopia, Mongolia a mwy. Roedd ei ffilmiau'n adlewyrchu'r amrywiaeth a'r rhyfeddodau hyn. Dysgom am y broses o greu'r rhaglenni, y tîm cefnogi, y dulliau o ffilmio. Hyd at 10 mlynedd yn ôl, byddai'n aml yn ei gael ei hun yn eistedd yn simsan wrth ddrws agored awyren fechan yn ffilmio'r ddaear islaw. Nawr gwneir y gwaith hwn gan ddroniau.

Mae Haydn yn ffotograffydd dogfennol o fri hefyd ac wedi cyflawni nifer o gomisiynau – yng Nghymru, Patagonia a'r Arctig. Gwelsom luniau atgofus o fywyd ffermio, pentrefi a chapeli yn Sir Gâr yn y 90au a roddodd gip ar oes a fu. Gwledd o ddelweddau!

*Joy Davies*

# Cymrodorion Caerdydd

**Hanes y Plygain - Cyfarfod y Cymrodorion Rhagfyr**

Cyflwynwyd hanes Canu'r Plygain gan Arfon Gwilym a Sioned Webb mewn noson hwyliog o sgwrs a chân. Clywyd sut bu i'r ddau gael eu swyno nôl yn y 70au gan ddiwylliant a oedd ar y pryd yn anghyfarwydd iddyn nhw.

Rhoddwyd braslun o'r hanes o ddyddiau'r Ficer Prichard hyd at y presennol. Cyfeiriwyd at y traddodiad, naws ac arddull y canu a'r geiriau. Esboniwyd trefn y gwasanaeth Plygain gydag egwyddor y drws agored. Nid oes rhaglen benodol i'r cyfarfodydd ond fel arfer y drefn yw i'r plant ganu'n gyntaf a'r gweddill i gyfrannu fel y mynnant. Yna ceir yr ail rownd.




Nodwyd yr elfen ddigyfeiliant sy'n perthyn i'r canu ac yna'r swper sy'n ychwanegu at fwynhad a phoblogrwydd y cyfarfodydd.

Atebwyd y cwestiwn beth yw carol blygain. Dysgwyd mai baledi yw llawer ohonynt gyda'r ddiwinyddiaeth yn dra gwahanol i'r garol fodern boblogaidd. Perthyn iddynt rhyw foelni gwerinol.

Soniwyd am y partion canu adnabyddus ac enwau nifer o unigolion a fu'n gymaint rhan o'r traddodiad. Cyfeiriwyd at gyfraniad gwerthfawr Roy Saer i atgyfodi'r diddordeb yn y canu drwy ei waith yn Sain Ffagan.

Clywyd recordiad o Garol y Swper a disgrifiwyd yr adfywiad sydd yna yn nhraddodiad y Canu Plygain heddiw. Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd canu Plygain oedd i'w cynnal dros gyfnod yr Ŵyl yn Sain Ffagan, Gwaelod y Garth, Pentyrch a Chapel Bethel Rhiwbeina.

Gweler fap o Ganu'r Plygain yn 2023 - 24.

# Colofn Natur

## *Hwyl yn Arolygu*



### Gethin Jenkins-Jones

Un o'r pethau sy'n rhoi y pleser a'r boddhad mwyaf o fod yn rhan o elusen natur fel yr RSPB a'r BTO yw cymryd rhan yn yr arolygon y maent yn rhedeg. Enghraifft dda yw 'The Big Garden Birdwatch' yr RSPB, a gynhelir yn flynyddol dros benwythnos ar ddiwedd mis Ionawr ac sy'n denu dros hanner miliwn o wirfoddolwyr. Er newidiadau cyflym ac ansicr y byd, mae gwneud arolygon bywyd gwyllt yn aml yn medru codi'r ysbryd, yn adfywio'r corff, yn ogystal â dod a phobl at ei gilydd ac i greu ffrindiau. Mae yna hefyd falchder o wybod y bydd eich data yn cyfoethogi byd gwyddoniaeth, fel darnau coll yn cael eu hychwanegu at jig-so er mwyn rhoi darlun cliriach o gyflwr y rhywogaethau sy'n byw yn ein plith. Rwyf am ffocysu heddiw ar arolwg diweddar a ddaeth â'r holl fuddion yma i mi.



***Gwylan benddu yn ei phlu gaeafol***

Mae gan y BTO (British Trust for Ornithology - nid oes ganddo enw Cymraeg am resymau brandio) tua hanner dwsin o arolygon pwysig, ac un peth braf yw nad oes rhaid bod yn arbenigwr i gymryd rhan mewn nifer ohonynt. Rydw i wedi cael hwyl yn cymryd rhan mewn sawl un ohonynt dros y blynyddoedd, ac ar ddiwedd mis Ionawr eleni cymerais ran mewn un arall am y tro cyntaf. Unwaith pob degawd mae'r elusen yn rhedeg yr arolwg 'WiNGS', sy'n ffocysu ar wylanod, i weld sut mae eu poblogaethau yn ac wedi newid ym Mhrydain. Yn anffodus diolch i obsesiwn y cyfryngau gyda'r adar hyn, nid oes ganddynt enw da gyda llawer o'r cyhoedd, sydd yn siom, oherwydd maent yn adar hwyliog ac yn un o'r ychydig rai sydd wedi addasu'n dda i gadw cwmni i ddyn yn ein hoes o drefoli. Yn Ionawr 2024 roedd yn amser i gynnal yr arolwg unwaith yn rhagor. Ers yr arolwg diwethaf rydym wedi gweld sawl newid a fydd yn siŵr o fod wedi effeithio ar boblogaethau gwylanod. Newidiadau da ym mholisi tirlenwi a physgota, a newidiadau gwael fel llygredd a chynhesu byd eang. Roedd felly yn bwysig cael gymaint o wirfoddolwyr â phosibl y tro hwn i weld pa newidiadau sydd wedi bod ers yr arolwg diwethaf.



***Wrthi'n cyfrif ar Y Foryd***

Dewisais ardal forol ger Y Foryd i wneud yr arolwg, tua ugain munud o yrru o Fangor. Er braidd yn wyntog, roedd yn hollol sych, ac roedd yn braf bod tu allan ac ymestyn y cyhyrau wedi sbel hir o fod yn gaeth i'r tŷ diolch i'r tywydd gwael a fu dros y diwrnodau cynt. Yn ymuno â mi roedd dau aelod o bwyllgor Cymdeithas Adar Prifysgol Bangor. Hwn oedd y tro cyntaf i mi gwrdd â'r ddau ohonynt wyneb yn wyneb, ac roedd yn hwyl dod i'w hadnabod a chyfnewid straeon adar gyda'n gilydd ar y siwrne. Wedi cyrraedd yr ardal tua dwy awr cyn y machlud, gwnaethom ffeindio ardal i'n cysgodi o'r gwynt a chychwyn cyfri efo cownteri wrth i'r gwylanod ddod i glwydo. Roedd hefyd amryw o adar eraill i'w mwynhau yn ystod y munudau tawel. Ar y llaid yr oedd cannoedd o Biod y Môr, Pibydd Coch, a'r Gylfinir, ac yn nofio yn y dŵr mi oedd dwsinau o Hwyaid yr Eithin. Yn eu plith roedd sawl Gwyach Fawr Gopog a Hwyaden Lygad Aur, ac uwchben gwelwn Hebog yn gwibio heibio, gan ddychryn nifer o'r adar cyfagos.

Llai nag awr cyn y machlud dechreuodd y gwylanod ddod i glwydo yn weddol reolaidd. Peth annisgwyl a sylwais arno oedd bod y mwyafrif ohonynt yn dod o gyfeiriad y tir, yn hytrach na'r môr, a oedd yn awgrymu eu bod wedi cael diwrnod o fwydo ar fwydod tir fferm yn hytrach nag ar unrhyw fwyd o'r traethau cyfagos. Gwnaethom barhau i gyfri tan y machlud, a cherddon ni nôl i'r car wedi cofnodi 323 Gwylan Benddu, 65 Gwylan y Penwaig, 2 Gwylan y Gweunydd ac 1 Gwylan Gefnddu Fwyaf. Bellach y mae i fyny i'r gwyddonwyr i'n hysbysu o arwyddocâd ein ffigyrau a gweddill y data a gasglwyd ledled y wlad, ond am y tro roedd yn ddigon ein bod yn falch efo'r data newydd, y ffrindiau newydd, a'r hwb i'r cyhyrau ar ymennydd - ffordd ddigon da i gychwyn y flwyddyn newydd.

## Er cof am fy annwyl Eleri
## Eleri Gwyndaf
### 1937 – 2023

I Eleri, F’anwylyd
14.2.1937 – 12.11.2023

O’r addfwyn, yr addfwynaf,
A’i gwên fel heulwen yr haf.
Er rhoi’n y llan rin ei llwch,
Erys ei mawr hawddgarwch;
A byw y bydd hi tra bof,
Yn enaid annwyl ynof.
*Robin Gwyndaf*

Diolch o galon
Am yr holl fendithion.
*Eleri*



## Clwb Canna

Ar ôl aros blynyddoedd, llwyddwyd o’r diwedd i sicrhau dyddiad ar gyfer gig Bwncath. A llwyddwyd hefyd i sicrhau Dedleoli a Taran i’w cefnogi. Cyhoeddwyd a rhyddhawyd tocynnau i’r gig ar nos Wener ym mis Tachwedd, ac roedd y tocynnau i gyd wedi gwerthu dros y penwythnos hwnnw.

A dyna oedd noson wych! Pwy fyddai’n credu mai mewn ysgol uwchradd yr oedd y gig y tro hwn? Roedd yr awyrgylch yn drydanol a’r gynulleidfa’n heidio i’r blaen o’r nodyn cyntaf. Roedd Taran, y band cyntaf yn wirioneddol arbennig, ac yn amlwg wedi ennill cefnogaeth frwd y gynulleidfa. Maen nhw’n cael eu hadnabod fel “band ysgol”, ond nid dyna fyddan nhw’n hir iawn. Mae ‘na ddyfodol llwyddiannus i’r band ifanc yma. Pob lwc i chi!

Cawsant eu dilyn gan y band lleol arall, Dadleoli sy’n brysur wneud enw iddyn nhw’u hunain ar y sîn yng Nghymru. Band ifanc gwych arall, sydd bellach wedi recordio llwyth o ganeuon fel ‘Fy Nghariad Gwyn’, ‘Dwirnodau Haf’ a’r clasur newydd ‘Cefnogi Cymru’. Unwaith eto, roedd y gynulleidfa’n sgrechian eu cefnogaeth ac yn cyd-ganu hefo’r aelodau - y band a’r gynulleidfa’n cynnal ei gilydd.

Band mawr y dydd ar hyn o bryd yw Bwncath, a wnaethon nhw ddim siomi. Roedd neuadd yr ysgol yn berwi. Mae’n debyg fod y glanhawyr wedi mwynhau hefyd wrth glywed yr ymarfer sain yn y prynhawn *“They’re good. Tell them they should record y CD”!* A chawson ni mo’n siomi, cawsom ein diddanu a’n swyno a’n gwefreiddio gan bob un nodyn, a phob un gair. Daeth y rheolwr safle draw awr ynghynt na diwedd y noson er mwyn clywed a mwynhau. *“I’m lovin’ this. You’re welcome back here any time.”*

Braf oedd gweld cymaint o groesdoriad o’r gymuned yn rhan o’r gynulleidfa, o’r cefnogwyr ifanc yn neidio a bloeddio yn y blaen, i’r ‘oedolion’ ychydig mwy sydêt yn eistedd ymhellach yn ôl (er eu bod hwythau hefyd bron marw eisiau bod yn bopio yn y blaen).

Diolch yn fawr i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am y croeso.

Gig nesaf Clwb Canna fydd Pwdin Reis, a chefnogaeth yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna nos Wener 8 Mawrth. Mae’r tocynnau ar werth am £10 yn Caban ac ar-lein drwy TicketSource: Clwb Canna yn cyflwyno Pwdin Reis + cefnogaeth at Canton Liberal Workmens Club event tickets from TicketSource



## Sioe *Rhinoseros* gan Theatr Genedlaethol Cymru

Ym mis Hydref gwyliais gynhyrchiad o *Rhinoseros* yn Theatr y Sherman, wedi'i haddasu gan Manon Steffan Ros a'i chyfarwyddo gan Steffan Donnelly, yn seiliedig ar ddrama Ffrengig y dramodydd Eugène Ionesco o 1959. Roedd wedi pryfocio fy meddwl gyda chwestiynau athronyddol, a rhoi ongl hollol newydd imi ar fy ngweledigaeth o gymdeithas.

Yn ystod y sioe, rydym yn dilyn dyn, Bérenger (Rhodri Meilir), sydd yn gweld y bobl yn ei gymdeithas yn cael eu trawsnewid a'u hypnoteiddio i fod yn rhinoserosiaid, un ar ôl y llall. Mae'n gwrthod cael ei sugno i fewn i'r trawsnewidiad, ond rydym yn gweld ei fod yn dioddef o'i herwydd.

Mae'r ddrama wreiddiol yn sylwebu ar dwf Ffasgaeth a Natsïaeth o fewn cymdeithas, a mwynheais y cynhyrchiad hwn oherwydd clirdeb ei neges a'r symbol o'r rhinoseros fel trosiad am yr hyn sydd bellach yn normal. Yn fwy, gwelais y sioe fel cynrychiolaeth o harddwch a cholled o fewn cymdeithas a'r berthynas rhwng natur a dyn, yn llythrennol ac yn ffigurol.

Un llinell sydd wedi aros yn y cof yw pan fo Bérenger yn cwestiynu ei hun wedi i bawb gael eu troi yn rhinoserosiaid. Mae'n gofyn pa iaith maent yn siarad, ond yna yn herio hynny, a gofyn pa iaith mae *ef* yn ei siarad. Er bod yr 'iaith' roedd y rhinoserosiaid yn ei siarad yn rhuo annealladwy i Bérenger, roedd dal yn teimlo wedi'i adael allan, fel petai yno rhwystr iaith, er mai ef yw'r bod dynol 'normal' a nid y creadur egsotig. Gwnaeth hyn i mi feddwl felly, pan mae odrwydd yn dod yn gonfesiwn, mae'r confesiwn yn dod yn odrwydd.

Os rydym yn ystyried y rhinoserosiaid fel pethau 'hyll' cymdeithas, ond mae pawb wedi cydweddu iddynt, y rhai sydd heb gydweddu yw'r mwtant bellach. Unwaith i bawb gydweddu i'r mwtant, nid yw'n fwtant rhagor. Roedd gwrthodiad Bérenger i golli ei hunaniaeth yn arwain at arwahanu ei hun o'r hyn sydd nawr yn gonfensiwn, ond sydd wrth gwrs, ddim yn ddynol. Ar un llaw, rydym yn teimlo siom drosto, oherwydd mae'n ynysig o'r llwyth mawr o greaduriaid, ond ar y llaw arall, rydym eisiau iddo aros yn fod dynol.

Cefais fy nharo gan y cyferbyniad rhwng dechrau a diwedd y sioe: caffi llawn bwrlwm, ac unigedd dyn. Dysgais sut mae gwerthoedd ac ymddygiad cymdeithas yn gallu trawsnewid dros nos, a gellir ddefnyddio damcaniaethau'r sioe i edrych ar lu o bethau eraill o fewn cymdeithas. Des i ffwrdd yn meddwl: a yw harddwch yn pylu gan fod hagrwch wedi'i ennill?

*Cristyn Rhydderch Davies*

## Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

Mynd o nerth i nerth yw hanes yr eisteddfod. O ganlyniad i ymroddiad nifer o bobl cafwyd achlysur cofiadwy yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar nos Wener olaf mis Ionawr.

Nid ar chwarae bach y cynhelir eisteddfod lwyddiannus. Ystyriwch y gofynion hanfodol. Mae angen cystadleuwyr, hyfforddwyr a chyfeilyddion heb sôn am y beirniaid. Sicrhaodd arweinyddion a gwirfoddolwyr brwd hefyd fod sail gadarn i'r gweithgarwch diwylliannol.

Testun llawenydd yw teilyngdod. Cynhaliwyd seremonïau urddasol i anrhydeddu Ela Pari, enillydd Tlws yr Ifanc; Christine James a gafodd y Gadair a Catrin Fflur Huws a dderbyniodd y Fedal Ryddiaith. Braf hefyd oedd cael cyfle i wrando ar ddetholiad o'r gweithiau buddugol yn ystod y seremonïau.

Heb os, cafwyd gwledd o gystadlu. Un o'r uchafbwyntiau ar lannau'r Taf oedd y gystadleuaeth gorawl. Côr CF1 ddaeth i'r brig y tro hwn. Hon oedd y gystadleuaeth fwyaf torfol gan i saith côr ymgiprys yn y brif gystadleuaeth gorawl. Roedd canmoliaeth uchel i bob côr gan y beirniaid a oedd yn bendant bod canu corawl yn ffynnu a'r dyfodol yn gadarn.

Trwy gydol y nos darparwyd y bwyd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Melin Gruffydd a'r diodydd gan Betsan Moses a'i chriw. Os yw llwyddiant yn cael ei fesur ar amser gorffen roedd hi'n llwyddiant ddigamsyniol gan mai bore Sadwrn oedd amser ymadael â'r ysgol!

Mae canlyniadau'r cystadlaethau llwyfan yn ogystal â rhai lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol sef Facebook, Twitter ac Instagram. Cofnodir canlyniadau'r cystadlaethau gwaith cartref yno maes o law.

Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r eisteddfod eleni. Cyhoeddir detholiad o'r gwaith cartref buddugol ac adroddiad llawn o'r eisteddfod yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd*. Mynnwch gopi.

***Rhai o weithwyr caled yr Eisteddfod***



# Merched y Wawr Bro Radur

Daeth mwy nag arfer ynghyd ar nos Fercher olaf ein rhaglen am 2023 wedi i'r gair fynd ar led fod Ruth Davies yn camu i'r bwlch ar y funud olaf. Rhoddodd gyflwyniad ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn ein cartrefi wrth i ni baratoi ar gyfer y Nadolig.



Roedd hi wedi paratoi melysion blasus i'w rhannu â ni, a dangosodd sut i ddewis defnydd lliwgar neu sgarff i lapio anrhegion a defnyddio hen gardiau Nadolig i wneud cardiau newydd sbon. Wedyn fe ddangosodd sut i wneud addurn i'w osod yng nghyntedd y cartref neu ar fwrdd bwyd. Defnyddiodd gannwyll goch yn y canol gyda thyfiant bytholwyrdd a blodyn gwyn o'r ardd o'u hamgylch.



Wrth inni fwynhau cwpanaid o de, rhoddodd Ruth yr addurn bwrdd i Glenys Thomas, aelod hynaf y gangen, a hithau yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 oed ar drothwy'r Ŵyl.

Ar nos Fercher 3 Ionawr, daeth Leah Owen-Griffiths i'n diddanu ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Mae Leah yn un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf, a hi oedd un o arweinwyr y gyfres deledu Ffit Cymru ar S4C. Roedd awyrgylch cartrefol a hapus drwy gydol y cyflwyniad difyr. Esboniodd iddi raddio mewn Drama ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn gweithio i'r Urdd, Cwmni Theatr Arad Goch a'r Amgueddfa Werin. Yn 2015 dychwelodd i'r coleg i hyfforddi i fod yn athrawes gynradd.

Cafodd swydd ym Mro Allta, lle clywodd ei bod wedi cael ei dewis yn un o'r pump arweinydd ar raglen Ffit Cymru. Yn fuan wedyn symudodd i Ysgol Llwyncelyn lle y cofiwn ei gweld yn ysbrydoli'r disgyblion gyda'i rhedeg dyddiol.

Cawsom ganllawiau a chip ar sut y newidiodd meddylfryd Leah yn ystod yr wyth wythnos gan ragori ar golli pwysau. Cawsom restr o gynghorion sy'n werth eu clywed gan Leah ei hun sy'n barod iawn i rannu'r neges â chymdeithasau eraill.

*Gwen Emyr*

***Ar y chwith: Ruth Davies a Jen Dafis***
***Isod Ruth Davies a Glenys Thomas***

***Leah Owen-Griffiths***



# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Ar y nos Wener olaf ym mis Tachwedd yn ôl ei harfer roedd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r cylch yn cynnal ei noson elusennol yn Neuadd y Pentref. Mae'r noson yma yn rhan bwysig o'n calendar ni bob blwyddyn. Cyri oedd ar y fwydlen wedi'i baratoi a'i serfio gyda gwên gan ein cigydd lleol.

'Joio Jazz' oedd ein thema eleni - a dyna wnaethom ni, yng nghwmni'r pianydd Jazz Richard West. Cawsom ddarnau cyfarwydd â ysgogodd rhyw hymian bach tawel ymhlith y gynulleidfa, a hefyd cyflwyniad hyfryd Jazz o waith Bach 'Jesu joy of man's desiring.'

Grassroots Caerdydd oedd ein helusen eleni. Mae Grassroots yn ganolfan i bobol ifanc rhwng 16 - 25 ynghanol y ddinas ers dros 40 mlynedd. Maent yn cynnig cyngor a chefnogaeth ac yn meithrin optimistiaeth a hunan werth mewn pobol sy'n aml yn gweld eu hunain mewn golau diflas a negyddol. Maent yn hyfforddi gweithdai mewn awyrgylch cyfeillgar ac yn cefnogi'r ifainc i reoli ei bywyd ac i dyfu mewn hyder.

A dyma'r newyddion gorau - yn dilyn ein cyfarfod Nadolig ar Ragfyr 11eg, trosglwyddwyd siec o £2,000 i ddwylo Louise Coombs a Rachel Condon, dwy o weithwyr Cymorth Ieuenctid / Atal ac ymyrryd cynnar Grassroots gan ein Cadeirydd Rhodri Jones. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



***Rhodri Jones gyda Louise Coombs a Rachel Condon***

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar Nos Lun Rhagfyr y 18 yng Nghapel Bethel Rhiwbeina croesawyd pawb i'r Plygain a'r cyntaf i gyd yn enw'r Gymdeithas.

Dechreuodd y noson dan olau'r gannwyll gyda darlleniad gan Gwilym Roberts. Yna cawsom wledd o garolau di-gyfeiliant a Pharti'r Efail yn rhoi cychwyn ar y canu. Cyflwynwyd yr eitemau amrywiol gan aelodau'r Gymdeithas a chan gyfeillion a ddaeth i fod yn rhan o'r Plygain, a'r cyfan wedi eu dethol yn ofalus i fynd â ni yn ôl i naws dathliad Nadolig y gorffennol.

Cafwyd cyflwyniadau gan Barti Eglwys Dewi Sant a Pharti Alun (aelodau'r Gymdeithas) ynghyd â nifer o ddeuawdau, unawdydd a thriawd. Roedd hi'n arbennig gweld a chlywed dau barti o bobl ifanc yr ardal yn cymryd rhan gan roi ffresni i Ŵyl y Blygain a sicrhau dyfodol canu plygeiniol yn yr ardal.

Wedi cwblhau'r ail gylch o garolau canwyd 'Carol y Swper' gan bob un a fu'n cymeryd rhan. Cyhoeddwyd y fendith gan Y Parchg Evan Morgan. Canwyd un garol cynulleidfaol ar y diwedd a diolchwyd i bawb gan ein Cadeirydd Shirley Williams yn arbennig i Lynn Davies am gyd-lynu'r noson, yna gwahoddodd bawb i gymdeithasu a chael paned. Bydd elw'r noson yn mynd at Eisteddfod Rhondda Cynon Tâf.



*Rhai o griw Y Plygain*



*Eirian Edwards a'r Dr Gethin Matthews*

Ar Nos Lun 15 Ionawr cyflwynodd ein Cadeirydd Shirley Williams ein siaradwr gwâdd an y noson sef Dr Gethin Matthews o Riwbeina. Mae Gethin yn Uwch - Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn arbenigo ar effaith a hanes y Cymry yn y Rhyfel Mawr. Er hynny ei ddiddordeb personol yw hanes y Cymry a ymfudodd i Ogledd America, yn arbennig y Cymry a ymfudodd i Ynys Vancouver ac i dref Nanaimo yn benodol. Llwyddodd i wneud ei sgwrs yn hynod ddiddorol drwy gyfuniad o ffeithiau a lluniau ac eglurodd fod llawer o Gymry mentrus wedi crwydro o le i le yng Ngogledd Amerig i geisio bywyd gwell ac osgoi caledi a diweithdra yng Nghymru.

Roedd Nanaimo yn gyrchfan benodol gan fod y Cymry yno eisoes yn denu rhagor i weithio yn y Gweithfeydd Glo, gan ddioddef damweinaiu angeuol fel cymaint a fu'n ymwneud â'r gwaith hwnnw. Crynhodd Gethin gymaint o wybodaeth ddiddorol drwy gyfrwng papurau newydd y cyfnod. Bu Gethin a'r teulu yn ymweld â Nanaimo i weld bedd ei hen daid, felly roedd yna reswm personol am ei ymweliad a'i sgwrs.

Diolchwyd iddo ar ein rhan gan Eirian Edwards am noson a sgwrs hynod ddifyr ac mi roedd gan Eirian ei hun ddiddordeb arbennig am fod ei brawd yn byw yn Nanaimo !

# Aelwyd Hamdden



Ym ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yng nghapel Bethel Rhiwbeina. Cafwyd myfyrdod gan y Parchg Dylan Rhys Parry, gweinidog Eglwysi Tabernacl Penybont ar Ogwr a Phorthcawl, ac yr oedd aelodau'r Aelwyd yn cymeryd rhan hefyd.

Ym mis Ionawr daeth yr aelodau ynghyd eto er mwyn cymdeithasu dros baned a chacen. Blin oedd deall bod dwy aelod erbyn hyn mewn cartrefi gofal, Margaret Evans ym Mhenylan a Gwyneth Jeffreys yn Heol Don.

Yn ail gyfarfod y mis cawsom gyfle i groesawu y Parchg Alun Tudur atom, gweinidog Eglwys Ebeneser, a bu'n sôn am ei fagwriaeth ym Mangor. Treuliodd flynyddoedd hapus yn Hostel Coleg Bala Bangor lle roedd ei dad, y Parchg R. Tudur Jones yn Brifathro. Wesleaid oedd teulu ei fam a chawsom hanesion difyr am nifer o gymeriadau. Darllenodd gerdd a ysgrifennodd Eifion Wyn i'w famgu Gwenllian. Dilynodd Alun ei dad a'u ddau frawd, Rhys a Geraint, i'r weinidogaeth, ac ar ôl 9 mlynedd yn Ebeneser, Wrecsam, daeth yn weinidog i Eglwys Ebeneser,Caerdydd yn 1995.



Mwynhawyd y sgwrs yn fawr gan yr aelodau.

# Melin
## Noson gyda Cleif Harpwood a Geraint Cynan

Grŵp o bobl yng Ngogledd Caerdydd yw Melin sy'n edrych i gynnal digwyddiadau Cymraeg yn yr ardal i gynnig adloniant a hybu Cymreictod. Mae croeso i unrhyw un ymuno â Melin a'u cefnogi wrth gynnig amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardal i bob oedran.

Cafwyd noson agoriadol bendigedig ar nos Wener, 1 Rhagfyr yng nglwb tennis yr Eglwys Newydd yng nghwmni Cleif Harpwood a Geraint Cynan. Cafwyd cyfres o straeon hyfryd gan Cleif am ei fagwraeth yn Aberafan yn cynnwys ei berthynas annwyl gyda'i Wncwl Richard (Jenkins / Burton); ei addysg gynradd dan ddylanwad ysbrydoledig y Pennaeth, Alwyn Samuel ac yna ymlaen i Ysgol Rhydfelen a thaith dwy awr ar y bws bob dydd i gyrraedd yr ysgol. Mae'n anodd dychmygu y fath ymroddiad at addysg Gymraeg ac a gafwyd yn y dyddiau cynharaf gan rieni a disgyblion dygn ac angerddol dros yr iaith. Aeth Cleif ymlaen i Goleg y Drindod ac yno ymunodd â'r grwp 'Ac Eraill' gan Iestyn Garlick. Yna aeth Cleif ymalen i sefydlu'r grŵp chwedlonol; Edward. H. Dafis ac am gyfnod bu'n anrhydeddu gigs Ac Eraill ac yn perfformio ledled Cymru gyda Edward H tra'n gweithio'n llawn amser, tipyn o gamp! Roedd cynulleidfa lawn y clwb tennis wrth eu bodd yn gwrando ar ei hanesion ac ar rai o'i hoff ganeuon a chlasuron y cyfnod. Pleser oedd gwrando ar 'bangers' y gorffennol gyda Geraint yn gyfeiliydd rhagorol i ystod o ganeuon oedd yn cynnwys 'Nia Ben Aur', 'Mr Duw', 'Breuddwyd roc a rôl', 'Ysbryd y nos' a 'Thir Glas'. Trefnwyd y noson er budd cronfa Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Rhondda Cynon Taf, 2024 a chodwyd £500.00 at yr achos. Diolch i bawb gefnogodd y noson arbennig hon.



**Cyngerdd Nadolig Côr Ysgol Melin Gruffydd**

Ar 19 Rhagfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig gymunedol gan gôr Ysgol Melin Gruffydd yn yr Eglwys Fethodistiaid, Yr Eglwys Newydd er budd cronfa Achub y Plant – Gaza.

**Noson Santes Dwynwen**

Cynhaliwyd noson arbennig i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen yn nhŷ bwyta'r Villaggio Pizzeria yn yr Eglwys Newydd ar nos Iau, 25 Ionawr. Daeth hanner cant o bobl ynghyd i fwynhau pryd o fwyd hyfryd a noson o adloniant yng nghwmni'r amryddawn Al Lewis.

Mae Al Lewis yn un o gyfansoddwyr-perfformwyr mwyaf adnabyddus Cymru a hudwyd y gynulleidfa gyda llu o ganeuon gan gynnwys 'Symud 'mlaen', 'Llosgi', 'Heulwen o Hiraeth' a rhai o'i albwm mwyaf diweddar, 'Fifteen Years'.

Cofiwch ddilyn Melin ar facebook a @melincymdeithasol ar 'X' i glywed am ddigwyddiadau'r dyfodol.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun, 15 Ionawr 2024 cawsom sgwrs a thrafodaeth ddiddorol iawn gan yr Athro Eleri Pryse o Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth ar y testun Seryddiaeth drwy'r Celfyddydau: Prosiect RAS200. Bwriad y prosiect yma yw mynd tu hwnt i'r dulliau arferol o hyrwyddo Seryddiaeth a Geoffiseg, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar bobl sydd eisoes â diddordeb mewn gwyddoniaeth. Penderfynwyd ceisio gwneud hyn trwy fentro i fyd y celfyddydau. Fel rhan o ddathliadau 200 mlynedd y Gymdeithas Seryddol Frenhinol (RAS) ym 2020, cynigwyd grantiau i brosiectau oedd yn estyn allan i ymddiddori cynulleidfa newydd.

Roedd adran Eleri yn Aberystwyth yn un o'r ceiswyr llwyddiannus a daeth prosiect RAS200 Awyr a Daear i fodolaeth. Roedd nifer o sefydliadau yn gysylltiedig â'r prosiect, yn eu plith: yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol UCL (yn benodol Mullard Space Science Laboratory), Ysgol Glan Clwyd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chwmni Telesgop. Cafwyd nifer o weithgareddau ar thema gwyddonol eu cynnal mewn meysydd celfyddydol. Er enghraifft, roedd cystadlaethau ar destunau gofodol yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol yn yr adrannau cerddoriaeth a chelf.

Lluniwyd cerddi gan y prif-feirdd Aneirin Karadog a Hywel Griffiths (sydd yn ddaearegwr) a darlledwyd nifer o raglenni radio a theledu gan gwmni Telesgop. Roedd gweithdai dweud stori i'r rhai ifancaf a chyflwyniadau theatrig a dawns. Ond uchafbwynt y prosiect oedd cyngerdd agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022, sef *Lloergan* gan yr awdur Fflur Dafydd gyda cherddoriaeth gan Griff Lynch a Lewys Wyn. Does dim lle i sôn am bob gweithgaredd gan fod cymaint ohonynt ac fe ymestynnwyd y prosiect am ddwy flynedd oherwydd y clo mawr. Mae hi'n anodd rhoi mesur ar lwyddiant prosiect fel hyn, ond ysbrydolwyd nifer fawr o blant a phobl ifanc a dangoswyd y gellid cael cydweithio buddiol rhwng y gwyddorau a'r celfyddydau.

*Rhys Morris*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## John Parry-Jones sy'n bwrw golwg ar gyfnod llwyddiannus Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Gyda'r tywydd yn ofnadwy ar ddechrau  mis Rhagfyr, gohiriwyd y gêm gwpan yn erbyn Treherbert. Chwaraewyd y gêm wythnos yn ddiweddarach gyda'r Clwb yn ennill, yn eithaf cyfforddus, ei lle yn yr 16 olaf, gyda buddugoliaeth o 42-5. Roedd pac y Clwb yn rhy gryf i'r ymwelwyr, ac er iddynt frwydro'n dda am hanner awr, dim ond un tîm oedd ynddi yn yr ail hanner, gyda'r Clwb yn croesi am chwe chais.



Wythnos yn ddiweddarach, taith i Wattstown oedd o'n blaenau ar gyfer y gêm olaf cyn y Nadolig. Er inni eu curo'n gyfforddus lawr ar Bontcanna, doedd dim amheuaeth y byddai'r her yn galetach o flaen eu cefnogwyr cartref. Doedd hi ddim yn glasur! Ar yr hanner, roedd hi'n 3-3, ond y tîm cartref sgoriodd bwyntiau cynta'r ail hanner, i fynd ar y blaen o 6-3 a'r gêm yn dal i fod yn y fantol. Tarodd y Clwb yn ôl gyda chic gosb lwyddiannus, ac wrth inni gyrraedd munudau ola'r gêm, doedd dim byd rhwng y ddau dîm. Methwyd â chic gosb hwyr, ond yna, gyda'r dyfarnwr wedi gweiddi *last play*, enillwyd cic gosb arall ar linell ddeg y tîm cartref. Gyda'r pwysau'n drwm, aeth y gic trwy ganol y pyst, ac roedd y bois wedi sicrhau buddugoliaeth arbennig o 9-6, a chyfle i ddathlu'r ŵyl mewn steil.

Daeth Treherbert nôl lawr yr A470 ar Sadwrn olaf  mis Tachwedd ar gyfer gêm gynghrair, a ni efallai'n rhagweld gêm ddigon cyfforddus wedi eu curo ddwywaith yn barod y tymor hwn. Ond y tro hwn, roedden nhw gymaint yn gryfach, ac wedi hanner awr, dim ond chwe phwynt oedd ynddi, a'r ymwelwyr wedi bod yn ymosod am adegau hir yn ystod yr hanner cyntaf. Croesodd y Clwb am gais â symudiad ola'r hanner, i agor y bwlch i 13-0, ond daliodd Treherbert ati, ac roedd angen amddiffyn cryf i ddal ein tir. Daeth ail gais gyda rhyw ddeng munud i fynd, a hynny'n sicrhau'r fuddugoliaeth o 18-0, ond methwyd â sicrhau'r pwynt bonws, ac roedd hynny ychydig yn siomedig. Ond gallwn ni ddim cwyno. Buddugoliaeth arall, a'r tîm yn gorffen y flwyddyn yn yr ail safle, a'r gobeithion yn uchel am weddill y tymor.

Wrth i'r tîm cyntaf adeiladu momentwm amlwg, braf yw nodi datblygiad y 67s hefyd. Yn dawel bach, maen nhw wedi esgyn i ail safle Cynghrair Pennaf Ardaloedd Caerdydd, heb golli ers mis Medi, ac ar ail Sadwrn y mis, sicrhawyd buddugoliaeth arbennig yn erbyn ail dîm Rhiwbeina, o 52-12 i gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Ninian Stuart. Yn ogystal â hyn, mae tîm merched y Clwb ar frîg adrannau dwyreiniol Undeb Rygbi Cymru, ac yn debygol o sicrhau dyrchafiad.

Parhaodd llwyddiant y Clwb yn ystod mis Ionawr. Llwyddodd y tîm cyntaf i guro Clwb Rygbi Old Illtydians, Llandaf a'r Tyllgoed. Er colli o 23-22 yn erbyn Abercrâf yn y Cwpan ar 20 Ionawr brwydrodd y Clwb yn galed mewn gêm agos a chyffrous iawn. Efallai canlyniad mwyaf nodedig y tymor hyd yn hyn oedd buddugoliaeth y 67s ar 13 Ionawr wrth guro trydydd tîm Met Caerdydd o 108 i 15!.

Nos Fawrth 20 Chwefor am 7.30 yn nhafarn yr Half Way, Pontcanna cynhelir noson er budd Elusen Rygbi Academi Lesotho. Bwriad yr Elusen yw hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chydraddoldeb rhywiol i ferched a bechgyn ifainc drwy rygbi. Bydd Theo Cabango, llysgennad newydd yr Elusen yn bresennol ar y noson pan cynhelir cwis ac ocsiwn. Bydd yr  holl arian a godir yn mynd tuag at bartneriaid yr Elusen yn Lesotho i barhau eu gwaith rhagorol i drawsnewid bywydau miloedd o bobl ifainc.

---



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Cyfraniad gan Irram Irshad*

Gwilym Dafydd

## "Defnyddiwch ef neu ei golli" - fy nhaith yn dysgu'r Gymraeg

Dw i wastad wedi bod yn falch i mi gael fy ngeni yng Nghaerdydd ar Ddydd Gŵyl Dewi, ond eto roeddwn yn cywilyddo gan nad oeddwn yn gallu siarad Cymraeg. Treuliais fy mlynyddoedd cynnar yn yr Ysgol Uwchradd yn dysgu'r iaith, ond wedyn dewis Ffrangeg ar gyfer TGAU ar draul y Gymraeg, ooh la la. Mae'n ddrwg iawn gennyf am y penderfyniad hwnnw ac es yn ôl i'w ddysgu tua 2010 pan gefais gyfle i gael dosbarthiadau trwy fy nghyflogwr GIG. Wrth gwrs, pan ddywedais wrth fy nghydweithwyr fy mod wedi cofrestru, fe ges i y sylwadau difrïol arferol.

"Pam wyt ti eisiau dysgu iaith sy'n marw?"

"Does neb yng Nghymru yn siarad Cymraeg!"



Y Gymraeg yw un o'r ieithoedd hynaf a siaredir yn Ewrop. Mewn poblogaeth o 3.3 miliwn, mae 30% o'r Cymry yn siarad Cymraeg, gyda'r rhan fwyaf o siaradwyr yn byw yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn swyddogol, mae tua 25,000 o siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru, ledled y byd. Hefyd mae llawer heb gofnodi Cymraeg fel iaith gyntaf, ond yn gallu ei siarad fel ail iaith. Yn sicr, yng Nghymru mae'n bell o fod yn iaith sy'n marw!

Treuliais 6 blynedd yn gweithio fy ffordd o lefel mynediad, i sylfaen i ganolradd. Cymerais ychydig flynyddoedd allan cyn cofrestru gyda Phrifysgol Caerdydd ar gyfer Safon Uwch. Fe gymerodd hyn 5 mlynedd i mi wrth i Covid a'r cyfnodau clo ohirio'r arholiadau, ond fe wnes basio o'r diwedd yn 2022. Phew!

Mae'r Gymraeg yn iaith hardd ond nid yw'n hawdd ei dysgu. Dyn ni i gyd yn cwyno am y treigladau, neu'r 'dreigladau' fel maen nhw'n fwy adnabyddus! Fodd bynnag, yr hyn dw i wedi'i ddarganfod yw wrth wneud sgwrs gyffredinol â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, yn aml nid ydyn nhw'n cael eu poeni gan dreigladau. Mae yna hefyd lawer o 'Wenglish' a slang. Dywedodd ffrind o Ogledd Cymru, er ei bod hi'n defnyddio'r geiriau Saesneg ar gyfer rhai pethau, roeddwn i'n defnyddio'r geiriau Cymraeg. Wrth gwrs! Dw i wedi dysgu'r geiriau yna yn Gymraeg, felly wrth gwrs 'rwyn mynd i'w defnyddio nhw!

Ar ôl pasio arholiadau, mae'n hawdd iawn eistedd yn ôl a meddwl "Dw i wedi gwneud" a pheidio â trafferthu. Fodd bynnag, wnes i ddim treulio 11 mlynedd o fy mywyd yn dysgu'r iaith ac yn trochi fy hun ymhellach yn hanes a diwylliant Cymru i beidio â'i defnyddio! Dw i'n gwrando ar Radio Cymru yn y car, dw i'n gwylio dramâu ar S4C (dal efo'r isdeitlau ymlaen, rhag ofn!), dw i'n gwneud gwersi ar ap Duolingo a dw i'n darllen cylchgronau a llyfrau Cymraeg. Ond mae gwir hyder yn dod o siarad. Mae gen i sawl cydweithiwr a chleifion sy'n siarad Cymraeg, ynghyd â rhai ffrindiau felly mae gen i gyfle i'w defnyddio hi rhan fwyaf o ddyddiau.

Yn haf 2023, es i â'm sgiliau Cymraeg ymhellach. Gan fy mod yn fferyllydd, mae gen i golofn iechyd ddwywaith y mis gyda safle ar-lein y Dysgwr Cymraeg Lingo360. Dechreuaf 2024 gyda cholofn newydd ar gyfer Lingo360 - ysgrifennu am lefydd o ddiddordeb i ymweld â nhw, gan ddechrau gyda phlasty yng Nghaerdydd, lle cefais de prynhawn a thaith o amgylch y tŷ cyn y Nadolig.

Ym mis Ionawr 2023 dechreuais gwrs Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Roeddwn i wastad wedi bod eisiau bod yn awdur, ond mynnodd fy mam a'm mam-gu fy mod yn cael swydd 'briodol' sy'n talu'r biliau. Nhw ddewisodd fferylliaeth i mi. Nawr bron i 30 mlynedd yn ddiweddarach, rwyf o'r diwedd yn sylweddoli fy mreuddwyd. Dim ond i oedolion yr oeddwn i wedi ysgrifennu erioed, ond rhoddais gynnig ar ysgrifennu plant a chyhoeddwyd fy stori gyntaf, "Betsi - Y Gath Cwl" yng nghyhoeddiad yr Urdd Cip ym mis Medi 2023. Roedd yn gymaint o lwyddiant, nes i Cip gomisiynu mwy o straeon ar gyfer 2024.

Gobeithio y bydd 2024 hefyd yn gweld cyhoeddi fy nghasgliad o straeon byrion dwyieithog a chasgliad dwyieithog o farddoniaeth, cyn i mi ddechrau gweithio ar lyfr plant. Mae yna nofel hefyd wedi'i chynllunio, ond mae hynny flynyddoedd i ffwrdd, fy mhrosiect tymor hir.

Felly, fel y gallwch weld, dw i wedi taflu fy hun yn llwyr i ddefnyddio fy sgiliau Cymraeg a pharhau i'w datblygu. Fe wnes i syrthio mewn cariad â hi hyd yn oed os yw'n dal i fy mhoeni! Dw i'n chwerthinllyd o hapus pan fydd cynorthwy-ydd siop neu staff bwyty yn fy ateb yn Gymraeg!

Mae'r Gymraeg yn iaith fyw iawn!

*Irram Irshad*

# Y DIGWYDDIADUR

## Chwefror

**Gwener, 9 Chwefror**
Mewn Cymeriad yn cyflwyno 'Dai' (sef drama am David Lloyd George). Dramodydd: Manon Steffan Ross; actor: Carwyn Jones; cyfarwyddydd: Rhian Blythe. Yn Neuadd Llanofer, Treganna (CF5 1FH), am 7.30pm. Tocynnau a manylion pellach: https://www.mewncymeriad.cymru/

**Sadwrn, 10 Chwefror**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg yng nghwmni Lynne Davies, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 13 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Marion Loeffler ar y testun 'Y Ferch o'r Dwyrain: O Berlin i Geredigion', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Gwener, 16 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Fi a Ti' – noson yng nghwmni Meleri Wyn James, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Llun, 19 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Dr Alwyn Humphreys ar y testun 'Trysor', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 20 Chwefror**
Eisteddfod Offerynnol yr Urdd Caerdydd a'r Fro, yng Ngwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd (CF10 5AL).

**Mawrth, 20 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson 'Wrth fy Ngwaith' yng nghwmni Elgan Davies, Trystan Francis a Wendy Roberts Jones, yn festri'r capel (CF24 4ER) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 22 Chwefror**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Jon Gower (Prifysgol Abertawe) ar y testun 'Bywyd drwy Lyfrau'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Sadwrn, 24 Chwefror**
Eisteddfod Cylch yr Urdd Canol Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (CF14 2JL).

**Sadwrn, 24 Chwefror**
Eisteddfod Cylch yr Urdd Dwyrain Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern (CF23 9DT).

**Sadwrn, 24 Chwefror**
Lleuwen Steffan, 'Emynau Coll y Werin', yng nghapel Salem, Treganna (CF5 2QF), am 7.30pm.

**Llun, 26 Chwefror**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn yng nghwmni'r delynores Bethan Nia, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim. Nid oes angen tocyn, ond am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Mawrth

**Gwener, 1 Mawrth**
Dydd Gweddi'r Byd 2024. 'Rwy'n eich annog i oddef eich gilydd mewn cariad' yw thema'r gwasanaeth eleni. Fe'i paratowyd gan grŵp eciwmenaidd o ferched Cristnogol o Balesteina. Cynhelir y gwasanaeth am 2.00pm yn yr Eglwys Fethodistaidd, Heol Penlline, Yr Eglwys Newydd (CF14 2AA). Darperir paned a theisen gan aelodau Eglwys Ebeneser ar ôl y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 1 Mawrth**
'Chwarae'r Chwedlau: Cabaret', gyda nifer o artistiaid LHDTC+ yn perfformio yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Mae''r sioe yn cynnwys drag, barddoniaeth, cerddoriaeth, dawns a chôr! Mwy o wybodaeth a thocynnau (£8.00) trwy wefan The Queer Emporium https://thequeeremporium.co.uk

**Sadwrn, 2 Mawrth**
Taith adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Sadwrn, 2 Mawrth**
Eisteddfod Cylch yr Urdd Gorllewin Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (CF5 3PZ).

**Sadwrn, 2 Mawrth**
Eisteddfod Cylch yr Urdd Bro Morgannwg, yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Y Barri (CF62 8YU).

**Llun, 4 Mawrth**
Eisteddfod Ddawns yr Urdd Caerdydd a'r Fro, yn Ysgol Uwchradd Fitzalan (CF11 8XB).

**Llun, 4 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi. Cinio yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd am 7.30pm. Adloniant gan Marged Hughes a Steffan Jones. Enwau a'r tâl i law o leiaf wythnos ymlaen llaw. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Llun, 4 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwr gwadd: Yr Athro Medwin Hughes (Cadeirydd Llais). Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Mawrth, 5 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Ambell Gip ar Gerddoriaeth Glasurol Cymru' yng nghwmni Geraint Lewis, yn festri'r capel (CF24 4ER) am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 6 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson y Dysgwyr yng nghwmni'r Fonesig Helen Lloyd Jones, a fydd yn sgwrsio ar y testun 'Pererindod Pen-rhys', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Gwener, 8 Mawrth**
Gig Clwb Canna. Pwdin Reis a chefnogaeth, yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna (CF5 1JD), am 7.30 pm. Tocynnau: £10 ymlaen llaw (ar gael o Caban, Pontcanna; *neu ar-lein*: Clwb Canna + Pwdin Reis + Ticketsource).

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc am 9.45am yn Ystafell 4, Y Llyfrgell Ganolog ar yr Ais. Siaradwyr: Yr Athro Jane Aaron, 'Deffroad y Gymraes yn Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg'; Ian Gwyn Hughes, 'Y Gymdeithas Bêl-droed a'r Gymraeg'; Dr Meg Elis, 'Deiseb Heddwch Merched Cymru'. Tâl cofrestru: £10.00. Manylion pellach: cymcarnhuanawc@gmail.com. Croeso.

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso.

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Eisteddfod Rhanbarth Cynradd yr Urdd Caerdydd a'r Fro, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (CF14 2JL).

**Mawrth, 12 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Cat Williams ar y testun 'TEN: oriel gelf gyfoes yn hyrwyddo celf Gymreig newydd', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press 07761-358755 neu eluned@press0.plus.com

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James Manylion tud.2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

**Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 2)**

Ganed Anna Letitia Waring (1823–1910) yng Nghastell-nedd i deulu o Grynwyr. Daeth i'r amlwg yn ei dydd fel awdures emynau Saesneg, ac mae un o'i hemynau, '*In heavenly love abiding*', wedi parhau'n boblogaidd hyd y dydd heddiw.

Yn niwedd ein herthygl y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd*, cynhwyswyd efelychiad Cymraeg o'r emyn hwnnw gan y diweddar Hywel M. Griffiths. (Mae'r erthygl honno ar gael hefyd yn electronig ar wefan *Y Dinesydd*, yn yr adran 'Y Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro'.) Roedd Hywel Griffiths yn byw yng Nghaerdydd pan luniodd ei efelychiad yn 1987, a thrwy hynny, felly, mae cysylltiad anuniongyrchol rhwng Anna Waring a Chaerdydd. Ond roedd ganddi gysylltiad uniongyrchol hefyd, gan iddi fyw am rai blynyddoedd ar gornel yr Heol Fawr a Heol yr Eglwys yng nghanol Caerdydd. Ond i ddeall pam yr oedd yn byw yno, rhaid troi at hanes ei thad, Elijah Waring (1787–1857).

Ganed ef i rieni o Grynwyr a oedd yn byw yn Alton yn Hampshire. Symudodd Elijah i Gymru tua 1811, i Abertawe i ddechrau. Fel mae'n digwydd, mae'n bosibl iawn y byddai ei lwybrau ef a'r nofelydd Jane Austen (1775–1817) wedi croesi ychydig cyn hynny, oherwydd yn 1809 symudodd hi i fyw yn agos i Alton, tua'r un adeg ag y symudodd aelodau eraill o'i theulu i fyw mewn bwthyn yn Alton a oedd yn eiddo i deulu Elijah.

Erbyn 1814 roedd Elijah Waring wedi ymsefydlu yng Nghastell-nedd ac yn 1817 priododd Deborah Price (1785–1867), merch Peter Price, rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, a'i wraig, Anna Tregelles, y ddau yn Grynwyr a'r ddau wedi symud o Gernyw i ardal Castell-nedd erbyn 1801. Fel teulu ei wraig, roedd Elijah Waring yntau yn aelod o dŷ cwrdd y Crynwyr yng Nghastell-nedd am nifer o flynyddoedd; ond erbyn diwedd 1824, oherwydd rhai newidiadau yn ei ddaliadau crefyddol, roedd wedi dechrau ystyried o ddifrif ymddiswyddo. Dywedir iddo adael y Crynwyr am y Methodistiaid Wesleaidd, ond er iddo glosio at y Wesleaid am gyfnod a phregethu yn eu plith, erbyn diwedd y 1820au roedd wedi bwrw ei goelbren gyda'r Bedyddwyr. Eto, er iddo ymadael â'r Crynwyr, diddorol ei weld yn cael ei ddisgrifio fel '*a man of refined nature and Quaker leanings*' flynyddoedd wedi iddo ddod yn aelod gweithgar gyda'r Bedyddwyr.

Masnachwr blawd oedd Elijah Waring yn ystod ei gyfnod yng Nghastell-nedd ac yn berchen ar Felin-y-bont gerllaw ei gartref, Plasyfelin, ar ochr orllewinol afon Nedd; ond roedd ganddo fys mewn sawl brywes masnachol arall hefyd. Yna, yn 1835, symudodd y teulu i Gaerdydd pan benodwyd Elijah yn rheolwr cangen newydd o'r 'West of England & South Wales District Bank'.

Daeth i Gaerdydd mewn cyfnod allweddol yn natblygiad y dref. Erbyn y 1830au, Caerdydd oedd porthladd mwyaf Prydain, o bell ffordd, ar gyfer allforio haearn, a byddai'n datblygu'n fwy o lawer fel porthladd yn sgil agor Doc Bute yn 1839 ac yna agor Rheilffordd Cwm Taf erbyn 1841. Ac yng Nghaerdydd, fel yng Nghastell-nedd, roedd Elijah yn gysylltiedig â sawl menter fasnachol. Roedd, er enghraifft, yn un o gyfarwyddwyr Cwmni Rheilffordd Cwm Taf.

Ymddeolodd Elijah o'i swydd yn y banc ym mis Hydref 1840, ac yn fuan wedyn fe'i penodwyd gan y Llywodraeth i archwilio i gyflwr ac amodau gwaith plant a weithiai mewn mwyngloddiau yn rhannau o swydd Gaerloyw, gan gynnwys Fforest y Ddena (*Forest of Dean*) ac ardal Kingswood ger Bryste. Roedd hynny ar gyfer y 'Comisiwn Cyflogaeth Plant' a sefydlwyd trwy anogaeth y dyngarwr mawr, Anthony Ashley-Cooper (Iarll Shaftesbury yn ddiweddarach). Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn yn 1842, ac mewn ymateb iddo, pasiwyd deddf yn nes ymlaen yr un flwyddyn yn gwahardd cyflogi menywod ac unrhyw



Elijah Waring
Llun: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

blant o dan ddeng mlwydd oed rhag gweithio o dan ddaear.

Ymddiswyddodd Elijah Waring o fod yn un o gyfarwyddwyr Cwmni Rheilffordd Cwm Taf yn 1843, am ei fod wedi symud i fyw i Clifton ger Bryste. Bu'n byw yno tan 1855 gyda'i wraig, Deborah, a'u pedair merch ddi-briod, ac Anna'r emynyddes yn un ohonynt. Daeth Anna yn aelod o'r Eglwys Anglicanaidd yn 1842, ond ymddengys i'w mam aros yn ffyddlon i'r Crynwyr, gan ddod yn gyfeillgar tra oedd hi yn Clifton â theulu Fry, y Crynwyr a oedd yn berchen ar y ffatri cynhyrchu siocled enwog ym Mryste.

Dychwelodd Elijah a Deborah i gyffiniau Castell-nedd yn 1855, ac yno y bu'r ddau farw, Elijah yn y Darran (tŷ ei fab, Charles) yn 1857 a Deborah yn Longford Court yn 1867, a'u claddu ym mynwent tŷ cwrdd y Crynwyr yng Nghastell-nedd. Ond arhosodd eu pedair merch yn Clifton weddill eu bywydau. Yr olaf o'r pedair oedd Anna, a fu farw yn 1910, yn 87 mlwydd oed, a'i chladdu gyda'i chwiorydd ym Mynwent Arnos Vale ym Mryste.

Yn ogystal â bod yn ddyn busnes amlwg, roedd Elijah Waring yn ymgyrchydd blaenllaw o blaid pob math o achosion crefyddol a dyngarol. Roedd hynny'n wir cyn iddo symud i Gaerdydd, oherwydd ar hyd yr amser wedi iddo ymsefydlu yng Nghastell-nedd, fe'i gwelir yn cymryd rhan mewn achlysuron cyhoeddus niferus ac yn dal swyddi mewn sawl cymdeithas, a hynny'n amrywio o weithgareddau yn cefnogi Cymdeithas y Beibl a rhai cymdeithasau cenhadol, i gyfarfodydd i hyrwyddo'r mudiad heddwch a'r mudiad i ddileu caethwasiaeth, i ymgyrchoedd o blaid diwygio seneddol a rhyddid sifil a chrefyddol.

Ac fe barhaodd Elijah yn ymgyrchydd brwd wedi iddo symud i Gaerdydd yn 1835. Yno, daeth yn aelod gweithgar yn Bethany, eglwys Saesneg y Bedyddwyr a oedd yn cwrdd yn Heol Eglwys Fair yng nghanol Caerdydd (safle a ddaeth maes o law yn rhan o siop adrannol Howells). Mae'n debyg y byddai'n pregethu'n bur aml mewn cyfarfodydd yn y capel hwnnw ganol wythnos, a gwelir adroddiadau amdano'n cymryd rhan mewn sawl cyfarfod cyhoeddus, gan gynnwys rhai i hyrwyddo'r mudiad cenhadol, mudiad yr ysgol Sul, a'r ymgyrch i ddileu caethwasiaeth. Cymerai ran amlwg hefyd ym mywyd dinesig Caerdydd. Roedd, er enghraifft, yn bresennol yn y cyfarfod i sefydlu'r 'Glamorganshire and Cardiff Literary and Scientific Institution' yn Hydref 1837, gan gael ei ethol yn aelod o'r pwyllgor; ac fe roddodd fochyn daear wedi ei stwffio yn rhodd i amgueddfa'r sefydliad newydd.

Yn ogystal â bod yn weithgar ar lafar, codai Elijah Waring ei lais mewn print hefyd. Dechreuodd gyhoeddi cylchgrawn yn Abertawe yn Ionawr 1813, *The Cambrian Visitor, ond daeth hwnnw i ben ym mis Awst y flwyddyn honno ar ôl dim ond naw rhifyn*. Ond cyfrannai lawer i'r wasg gyfnodol dros y blynyddoedd, nid lleiaf i bapur newydd Abertawe, *The Cambrian*.

Roedd Elijah Waring hefyd yn barddoni. Gwelir cerddi ganddo yma a thraw yn y wasg gyfnodol, a hefyd yn y gyfrol *The Cambrian Album* (1830). Ymddiddorai mewn barddoniaeth o gyfnod cynnar yn ei hanes, fel y gwelwn o'r ffaith iddo olygu cyfrol o waith menyw dlawd o'r enw Sarah Newman, *Poems, on Subjects connected with Scripture*, yn 1811, cyn iddo adael Alton. Mae'n amlwg fod barddoni'n rhedeg yn y teulu, oherwydd roedd ei frawd a'i chwaer, Samuel a Sarah, hefyd yn llunio cerddi, ac felly hefyd ei ferch a'i fab, Anna a Charles. (Roedd Charles hefyd, gyda llaw, yn arloeswr ym myd ffotograffiaeth.)

Maes arall y trodd Elijah Waring ei law ato oedd arlunio. Mae llun a wnaeth o bennaeth Maori a ymwelodd ag ef yng Nghastell-nedd yn 1827, wedi goroesi yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Bryste. Yn *Cardiff Records*, cyfrol 3 (1901), ceir llun o T. Revel Guest (1790–1837), maer etholedig cyntaf Caerdydd, a dynnwyd gan Elijah oddi ar ei gof. Ac mae'r llun enwog o Iolo Morganwg yn ei gadair sydd ar ddechrau cofiant Elijah Waring iddo yn 1850, yn seiliedig ar lun o Iolo a dynnwyd gan Elijah, eto oddi ar ei gof – ond rhagor am Iolo Morganwg a'i gysylltiad ag Elijah Waring ac eraill o blith Crynwyr Bro Morgannwg y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

## Dydd Santes Dwynwen a Merched y Wawr Bro Radur




Ar gais Cyngor Cymuned Radur, addurnodd rhai o aelodau cangen Bro Radur flwch plannu yng Ngerddi Windsor yng nghanol Radur ar gyfer dydd Santes Dwynwen.

Plannwyd briallu pinc mewn blwch a oedd eisoes yn cynnwys cennin Pedr a gosodwyd calon ynghyd â phrysglwyn bychan ynddo. Gosodwyd hefyd ychydig o hanes Santes Dwynwen ar flaen y blwch. Diolch i Erith Davies am arwain y prosiect.

Yn anffodus roedd y tywydd yn wael, ond gobeithio bod rhai o'r trigolion lleol wedi cael cyfle i ddarllen ychydig am nawddsant cariadon Cymru.

Y bwriad yw addurno'r blwch eto ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, gan obeithio y bydd y tywydd yn well.

# Pobol y Rhigwm

Wn i ddim ai fy ngrwgnach innau am ddiffyg cystadleuwyr ar y limrig ym mis Rhagfyr sy'n gyfrifol, neu'r ffaith i fi osod tasg ar fesur digon penagored y mis hwn, ond daeth nifer iach o benillion i law'r beirniad. Croesawaf y brwdfrydedd yn fawr ac er bod y safon yn amrywio, mae yna bennill sy'n dweud rhywbeth gan bob ymgeisydd. Tasg beirniad, wedyn, yw didoli yn ôl *sut* y mae'n cael ei ddweud. Does dim cyfyngiadau llym iawn ar fydryddiaeth, fel y cyfryw, gyda rhywbeth mor benagored â 'phennill', ond cofiwch, os ydych chi'n penderfynu sgrifennu ar fydr ac odl, mae pennill sy'n gymesur ei sillafau ac yn llifo'n esmwyth yn gymaint cryfach. Dyna, efallai, oedd y ffactor pennaf pan ddaeth yn fater o ddewis rhwng y penillion y tro hwn. Cyn dod at y goreuon, dyma linell yr un am y chwe phennill arall, yn y drefn y ces i nhw:

Mae *gweld o bell* yn fyfyriol ei anian ac â'r gallu i gyfleu cysyniad cyfoes (cynhesu byd-eang) mewn ffordd wreiddiol; gwaetha'r modd, anghyson yw'r fydryddiaeth, ac 'yn flanced' sy'n ramadegol gywir. Mae digon o glem gan *dim clem*, mae'r mydryddiaeth yn taro deuddeg ond mae gormod o ymadroddion haniaethol yn y naratif – cofiwch, *dim clem*, mai dal yn ôl sy'n well, ar adegau. *Cwmeithin* yw'r cynta i sgrifennu ar fesur penodol, a rhaid ei ganmol am driban crefftus sy'n argyhoeddi, er efallai bod y neges ychydig yn niwlog (rwy'n cymryd mai sgil-effaith rhyfel sydd o dan sylw). Ymateb cwbwl lythrennol i 'eira mân, eira mawr' sydd gan *Dewi*, ac er nad oes unrhyw beth o'i le ar hynny, mae angen twtio'r fydryddiaeth. Mae triban *becso* (sydd, fel *Cwmeithin* yn gwneud teilyngdod llwyr â'r mesur) yn codi i dir uwch, achos metaffor am hynt rhyfela sydd yma – mae'n drueni bod ymadrodd ffwr-a-hi'r llinell glo'n tynnu oddi ar yr hyn sydd, fel arall, yn driban dwys a gofalus. Dydw i ddim cweit wedi deall pennill *eira Ionawr*, hefyd (pwy yw'r 'pencampwr' o dan sylw, ac ai'r 'eira ar y llawr' sydd o dan sylw?), ond gall saernïo pennill yn dda.

Dyma ddod at y goreuon, gan ddechrau gyda'r ddau ddaeth yn agos ati. Nawrte, beth yn y byd i'w wneud o'r englyn. Dyw 'chwaethus' ddim yn ansoddair y byddwn i'n ei ddefnyddio i'w ddisgrifio! Fodd bynnag, mae'n amhosib gwadu bod yma rywun â'r ddawn i greu englyn ysgafn ac mae'r gynghanedd Sain yn y drydedd llinell yn rhyfeddol! Gwnewch o hwn beth y mynnwch, ond mae'n rhaid canmol y grefft!

Roedd ganddo tu ôl i'r olwyn – ei ffôn  
ar ffordd ar ben clogwyn.  
Tecst am secs demtiodd â'i swyn.  
Ef fu farw; hi'n forwyn.  
*Dim syndod*

Fel yr awgryma'r ffugenw *Cop 28*, tynged y blaned yn sgil newid hinsawdd yw'r testun. Mewn mis gwannach, byddai'n hawlio'i le'n gyffyrddus gyda'r tri gorau, ond rhaid hollti blew y tro hwn. Dau beth sy'n ei atal rhag cael podiwm: henffasiwn, yw ymadroddion fel 'plant y llawr' a 'bythol dwymo' erbyn hyn. At hynny, dyw rhythm y llinell gynta ddim cweit yn cyd-fynd â gweddill y pennill. Fel arall, mae'n ardderchog.

Os taw eira mân, eira mawr  
Yw gwireb oesol blant y llawr,  
Am ba hyd y clywn hi eto  
Wrth i'n daear fythol dwymo?  
*Cop 28*

Dyma'r tri ar y brig, felly, yn nhrefn eu teilyngdod, fel petai:

Rhyw fath o 'hanner triban' sydd gan *Brython*, yn yr ystyr ei fod e'n cadw at yr un patrwm mydryddol, ond ddim y patrwm odlau cyfarwydd (heblaw'r odl fewnol yn y llinell glo). Mae'n bennill campus, gyda'r cyferbyniad diamser hwnnw rhwng dau begwn y cenedlaethau wedi'i ddelweddu'n syml, ond yn ergydiol hefyd. Mae dwysdeimlad go iawn i'r ymgais hwn, ac fe wnaeth fy nghyffwrdd:

Mae'r plu yn llonni'r plentyn  
Ar waetha' unrhyw bryder,  
Ond i'r hen ŵr ar bwys ei ffon  
Daw ton o ddiffyg hyder.  
*Brython*

Triban cyflawn, hynod lwyddiannus a gorffenedig sydd gan *Manod*. Cyferbynnir technolegau darogan y tywydd yr oes sydd ohoni ag arferion greddfol yr oes a fu. Syniad gwreiddiol iawn wedi'i droi'n bennill o sylwedd. Mae'r mynegiant tafodieithol yn y llinell glo yn ychwanegu at y cysyniad o gyferbynnu ag adeg tra wahanol. Ei symlrwydd yw ei gryfder.

Cyn sôn am uwch dechnoleg  
Na gradd mewn 'tywyddoleg',  
Fe wyddai'r werin gampau'r ôd  
Heb fod erio'd mewn coleg.  
*Manod*

Triban ysgafn sy'n mynd â hi'r tro hwn. Fel mae'n digwydd, *bite-a-let* oedd y cynta yn y casgliad a gefais, ac ni laciodd ei afael arnaf. Pennill dychan yw hwn, rhywbeth sy'n anodd dros ben i'w greu'n llwyddiannus, fel y bydd Talyrnwyr profiadol yn ei wybod! Mae'r ffugenw ei hun yn chwarae ardderchog ar eiriau, ac yn crynhoi hanfod y triban, sef dirmygu landlordiaid digydwybod sy'n codi rhenti sylweddol am anheddau is-safonol, yn sgil yr anghydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw yn y farchnad sydd ohoni. Peidiwch â chael eich twyllo gan y delweddu doniol a swreal, mae *bite-a-let* wedi ymateb yn gampus ac mewn modd tu hwnt o wreiddiol i'r ymadrodd 'eira mân, eira mawr', gyda thriban clyfar dros ben. Mewn cystadleuaeth wnaeth fy mhlesio'n fawr y mis hwn, mae triban *bite-a-let* fymryn rhagorach na'r gweddill, ac yn haeddu'r wobr gyntaf:

Anghofiais yr yswiriant,  
a brathodd llygod denant,  
ond blodau sy'n gorchuddio'r to,  
wnaeth gwympo ar y palmant.  
*Bite-a-let*

**Enillydd Rhagfyr / Ionawr**  
**Alan Iwi, Didcot**

**Cystadleuaeth mis Chwefror**

**Englyn neu driban am y Pasg cyfoes**

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Chwefror at:*  
*eirianagwilym@gmail.com*  
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Ysgol y Berllan Deg

**Côr yn y Senedd**
Cafodd y côr y fraint anhygoel o ganu yn y Senedd am fyd mwy teg a charedig fel rhan o ddigwyddiad noddfa ar 12 Rhagfyr. Bu'n brofiad hyfryd i'r disgyblion a chafwyd cyfle i sgwrsio gyda nifer o'r Aelodau Seneddol gan gynnwys y Llywydd Elin Jones AS ar ôl y digwyddiad.

**Cyngherddau Nadolig.**
Cynhaliwyd cyngherddau Nadolig gan bob blwyddyn gyda phob disgybl yn cael y cyfle i berfformio a chanu. Thema Sioe Nadolig Blwyddyn 1 a 2 eleni oedd *Gwlad Rala Rwdins*.
Cynhaliwyd cyngerdd ddwy noson yn olynol gan flynyddoedd 3 a 4, ac yna blynyddoedd 5 a 6 yn Eglwys Glenwood wnaeth wir ddal naws y Nadolig.
Diolch hefyd i'r Ffrindiau am drefnu prynhawn cymdeithasol a Nadoligaidd i'r rhieni. Cafodd y côr gyfle i ddiddanu'r gynulleidfa.

**Perfformiadau Offerynnol**
Bu Blwyddyn 4 yn ffodus iawn i gael gwersi j-sax yn ystod tymor yr Hydref. Ar ddydd Gwener, Rhagfyr 15 gwahoddwyd y rhieni i'r ysgol i fwynhau perfformiad gan y plant ac i gael blas ar eu sgiliau newydd.
Bu Blwyddyn 3 yn ffodus iawn i gael gwersi pBuzz yn ystod tymor yr Hydref. Ar nos Fercher, Rhagfyr 6 perfformiodd y plant yng nghanolfan yr All Nations gyda Cherddorfa Cymru.

**Sioeau**
Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn Theatr Sherman ar Rhagfyr 14 i wylio perffromiad o *Peter Pan*. Buont yn ddigon ffodus i gael sgwrs gyda rhai o'r actorion mewn sesiwn cwestiwn ac ateb ar ôl y sioe.


*j-sax*


*Y Côr yn y Senedd*

# Ysgol Coed y Gof

Bu'r ysgol yn paratoi'n brysur tuag at ddathliadau a thraddodiadau'r Ŵyl, a llwyddwyd i gywasgu nifer fawr o ddigwyddiadau a phrofiadau gwerthfawr i gyfnod byrlymus iawn. Cynhaliwyd prynhawn agored yn yr ysgol ar 20 o Ragfyr rhwng 1:30-3:00. Croesawyd rhieni a phlant oedd eisiau blas ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig gan gynnwys disgyblion a fydd yn cychwyn yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2024.

**Côr yr Ysgol**
Mwynheuodd y côr wrth ddiddanu torf sylweddol ddydd Sul 11 Tachwedd ar lannau'r afon Taf. Canwyd amrywiaeth o ganeuon Nadoligaidd gan orffen gyda ffefryn pawb, 'Diolch am y Dolig'. Dywedodd Gracie Enright o flwyddyn 6, "Nes i wir fwynhau canu o flaen pawb gyda fy ffrindiau". Da iawn i bawb am gymryd rhan!

**Dr Nic Bonne, y seryddwr, yn ymweld â Bl. 4.**
Diolch enfawr i Dr Nic Bonne, seryddwr o Brifysgol Portsmouth am ddod i'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion am y gofod ac am ei brofiadau. Mae Dr Nic Bonne yn berson gyda nam golwg ac yn rhywun sy'n ceisio gwneud y byd seryddiaeth yn hygyrch i bobl sy'n rhannu'r un anableddau ag ef. Diolch eto!

**Tîm Pêl-droed**
Aeth tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol i dwrnamaint rhwng ysgolion Melin Gruffydd, Treganna a Phwll Coch. Cafodd pob un o flwyddyn 6 a oedd eisiau, y cyfle i gynrychioli'r ysgol a gwneud hyn mewn ffordd urddasol iawn. Enillom nifer o gemau gyda goliau gwych yn dod o Kyde Curle-Wood, Marshall Maidment, Blake Hancock ac Osian Bradbury. Da iawn fechgyn.

**Criw Craidd**
Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 6 y cyfle i ddysgu nifer o sgiliau bywyd ar fore cyffrous iawn gyda'r Criw Craidd. Dysgwyd sut i gadw'n ddiogel ar y traeth a beth i wneud petaen nhw'n disgyn i ddŵr dwfn, sut i gadw'n ddiogel rhag peryglon trydan, tân a thraciau tren.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

**Profedigaethau**

Ar ddechrau blwyddyn newydd collwyd dau o'n haelodau. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd yn eu hiraeth. Bu farw Mr Wynne Thomas, Llanisien, yng Nghartref Tŷ Coch. Mae ei briod Mrs Beryl Thomas â'u plant, Hannah a Jonathan a'u teuluoedd yn ein meddyliau. Bu farw Mrs Janice Jones yn ei chartref yn Radyr ac mae'n cydymdeimlad gyda'i phriod, Mr Bryan Jones ac â Geraint a'r teulu mewn cyfnod anodd. Dymunwn pob bendith iddynt yn eu colled.

**Llongyfarchiadau**

.... i Siôn a Gwenno Lewis ar enedigaeth Gethin Morlais; brawd i Alun a chefnder i Enlli, Ifan, Huw a Bleddyn. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, John a Mali Rowlands.

.... i Alun Tobias ar ennill Cadair Eisteddfod Farddol Caerfyrddin. Mae'r tŷ yn brysur lenwi!

**Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn bendithiol o dan nawdd y Gymdeithas. Diolch i Hannah Thomas a Cerian Angharad am y trefniadau ac i bawb a gyfranodd tuag at noson nodedig iawn.

**Banc Bwyd**

Yn ystod mis Ionawr casglwyd yn hael tuag at y Banc Bwyd. Diolch i Siân Griffiths am drefnu'r ymgyrch. Rydym yn edrych ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af gyda 'Cawl a Chân'. Mae croeso i bawb i ddod i wrando ar Gôr y Waun Ddyfal yn ein difyrru. Bydd Mynediad wrth y drws am £5.00.

**Oedfaon**

Edrychwn ymlaen hefyd tuag at ddathlu'r Pasg ar Fawrth 22ain gydag anerchiad gan Mr Emyr Jenkins ar y testun 'Pasg Barabas'.

Trefn Gwasanaethau mis Mawrth; yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch.
Mawrth 3ydd – Bore: Gwasanaeth Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul; Hwyr: Oedfa Gymun o dan arweiniad Mrs Margaret Jones.
Mawrth 10fed: Yr Athro Ddr Eryl Wyn Davies.
Mawrth 17eg – Bore: Parchg Gwilym Wyn Roberts; Hwyr: Parchg Robert Owen Griffiths.
Mawrth 24ain – Bore: Parchg Dafydd Andrew Jones; Hwyr: Eglwys Y Tabernacl.
Mawrth 29ain – Gwasanaeth Cymun Gwener y Groglith am 10.00 o'r gloch o dan arweiniad y Parchg Dafydd Andrew Jones.
Mawrth 31ain – Sul y Pasg: Bore: Parchg Robin Samuel; Hwyr: Mrs Margaret Jones.
Mae croeso cynnes yn Y Crwys!

## SALEM, TREGANNA

**Derbyn Pobl Ifanc yn Gyflawn Aelodau**

Mor braf yn ystod mis Rhagfyr oedd derbyn rhai o bobl ifanc yr eglwys yn gyflawn aelodau, a phleser oedd eu gweld yn ymrwymo i'r capel. Dymuniadau gorau i Ffred, Mari, Owen, Rhys a Twm.

**Gwasanaethau**

Mae oedfa'r bore am 10.30 yn dilyn y patrwm arferol, a bydd patrwm oedfa'r hwyr yn para tan ddiwedd mis Mai.
Nos Sul cyntaf pob mis - oedfa arferol yn Salem am 6.00pm o dan ofal Evan.
Pob nos Sul arall - oedfa Zoom fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod Covid.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin.

Bore Mercher 21 Chwefror a 6 Mawrth rhwng 9.45 a 11.15

**Bore Golud** - cyfle i rai sy'n dioddef o ddementia, a'u gofalwyr ac unrhyw un arall, daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned.

**Clwb Coffi** - ar fore Gwener rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb y Bobl Ifanc** - unwaith y mis ar nos Wener.

**Adran Salem** - nos Iau rhwng 6.00 a 7.00. Croeso i bawb.



*Ieuenctid Salem gyda'r Parchg Evan Morgan*

## TABERNACL, YR AIS

**Datblygiadau diweddar**

Datblygiad cyffrous diweddaraf y capel oedd gosod dwy sgrin deledu fawr, un yn y Sêt Fawr a'r llall yn y festri uchaf at ddefnydd yr Ysgol Sul. Mae defnydd da wedi cael ei wneud ohonynt yn barod.
Digwyddiad pwysig, ond yn wahanol iawn i'r uchod, oedd bod boeler newydd wedi ei osod yn y capel. Bu llawer o ymgynghori a gwaith ymchwil – pleser erbyn hyn yw cael cymaint o wres.

**Y Clwb Darllen**

Bu'r Clwb Darllen yn brysur unwaith eto – daeth grŵp bach at ei gilydd ar ôl oedfa nos Sul ym mwyty Indo Cymru i drafod *A Christmas Tragedy* gan Agatha Christie. Yna, ddiwedd mis Ionawr, ym Mwyty Calabrisella, *Porth* gan Luned Aaron oedd y dewis.

**Dathliad**

Ddechrau Ionawr, daeth criw da o'r Gymdeithas at ei gilydd i ddathlu yn Côte Brasserie. Roedd pawb yn falch i gael Dafydd Iwan fel siaradwr gwadd.

**Bore Coffi**

Cynhaliwyd Bore Coffi cynta'r flwyddyn ddiwedd Ionawr yng nghartre Bill a Ruth Davies; daeth criw da at ei gilydd i fwynhau'r achlysur difyr.

**Arlwy Cerddorol**

Dyma'r arlwy cerddorol yn y Tabernacl am y misoedd nesaf. Datganiad Piano gan Connor Henryk Fogel ar Nos Wener, 9 Chwefror am 7.30pm. Yna Cyngerdd ar Pnawn Sul, 17 Mawrth am 4pm gan Gôr Heol y March.

**Oedfaon**

Mawr yw ein diolch i'r canlynol am eu gwasanaeth ar y Sul yn ystod Mis Ionawr – Rhys ab Owen, y Parchg John Roberts, Plant yr Ysgol Sul, y Parchg Huw Lewis, ein Gweinidog y Parchg Ddr Rosa Hunt a'r Parchg Owain Llyr Evans. Cynhaliwyd hefyd wasanaeth hyfryd o dan ofal Paula Hughes, Ton Teg sydd yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth.

## BETHEL, PENARTH

**Cyfarchion**

Cyfarchion cynnes i'r rhai a fu'n anhwylus dros y misoedd diwethaf.

**Oedfaon**

Cawsom amrywiaeth gyfoethog yn ein hoedfaon dros Dymor yr Adfent a'r Flwyddyn Newydd a diolch i'r rhai a fu'n paratoi ar ein cyfer.

Ar Sul cyntaf yr Adfent cyfeiriodd ein gweinidog at y garol 'O dawel ddinas Bethlehem', gan nodi nad tawelwch sy yno heddiw. Aeth ymlaen i'n herio ynghylch y dewis o Fethlehem fel man geni i'r Iesu. Pam nad dinas bwysig Jerwsalem?

Dan arweiniad y Parchg Ifan Roberts (10 Rhagfyr) hoeliwyd ein sylw ar neges ganolog Llythyr Paul at y Galatiaid, sef, rhyddid. Cynigiwyd bod y rhyddid arbennig hwn yn ein gwarchod rhag pedwar 'bygythiad' - barn eraill, yr hunan, pechod, balchder ysbrydol.

Clywsom gan y Parchg Glyn Tudwal Jones am y polau piniwn diweddar sy'n rhoi darlun du iawn o sefyllfa crefydd yng Nghymru. Wedi'n rhybuddio rhag derbyn ystadegau moel heb wybodaeth gefndirol, awgrymodd Glyn ein bod, yn atgoffa'n gilydd o enghreifftiau o ffyddloniaid Crist sy'n gwasanaethu ac yn arloesi.

Roedd oedfa Dydd Nadolig yng ngofal un-ar-ddeg o aelodau Bethel yn cyflwyno llithau a charolau. Canasom garolau llai cyfawrydd a rhai'n ddigyfeiliant. Canwyd carol newydd i ni o waith Tecwyn Owen, tad Sian Meinir.

I gloi'r hen flwyddyn a bwrw golwg ymlaen cafwyd myfyrdod gan Sian Meinir ar Pregethwyr 7: 1 -14. Am ysgytwad! Cyfeiriodd at lyfr diweddar gan Oliver Burkeman sy'n cynnig sylwadau diddorol ar sut i fod yn fodlon.

Yn oedfa gyntaf 2024 anogwyd ni gan ein gweinidog i ddilyn cyngor Paul (Philipiaid 3: 13) 'gan anghofio'r hyn sydd o'r tu cefn ac ymestyn yn daer at yr hyn sydd o'r tu blaen'. Gosododd dair her ger ein bron, (a) anghofio methiannau, (b) peidio â dal dig, (c) adnewyddu ein perthynas â Iesu.

Ar 14 Ionawr seiliodd Y Parchg Allan Pickard. ei fyfyrdod ar y newidiadau sylweddol a syfrdanol a fu yn ein cymdeithas ers ei ordeinio yn 1970. Ond trwy ac er gwaethaf popeth, roedd yn gadarn bod cenadwri Iesu yn perthyn ac yn berthnasol i bob tymor.

## EGLWYS DEWI SANT

**Synod Sanctaidd**

Nos Fercher, 29 Tachwedd mewn gwasanaeth ysbrydoledig o flaen cynulleidfa luosog yn eglwys Dewi Sant, cyfarfu Esgobion Cadeiriol Yr Eglwys yng Nghymru i gadarnhau ethol yr Hybarch Dorrien Davies yn Esgob Tyddewi.

**Sul Cyntaf yr Adfent**

Gyda'r hwyr, cafwyd gwasanaeth o gerddoriaeth a darlleniadau ar gyfer yr Adfent â chôr yr eglwys yn cyfrannu'n arbennig fel arfer.

**Mawl yr Adfent**

Cynhaliwyd gwasanaeth i Undeb y Mamau Esgobaeth Llandaf yn Eglwys Dewi Sant brynhawn Iau y 7 Rhagfyr â'r Esgob Mary Stallard, Esgob Llandaf yn pregethu.

**Yr Ysgol Sul**

Bore Sul, wythnos cyn y Nadolig, cyflwynodd plant yr ysgol Sul hanes y Nadolig. A hwy dan arweiniad Liz, a baratodd yr orennau ar gyfer gwasanaeth y Cristingl, pan wnaed casgliad i Gronfa Archesgob Cymru er Budd Plant ac y dathlwyd Gŵyl Yr Ystwyll, Gŵyl y Seren.

**Gwasanaethau**

Nos Sul 17 Rhagfyr, bu gwasanaeth o lithoedd a charolau Nadolig a phrynhawn Mercher yr 20fed, gwasanaeth i weithwyr y swyddfeydd sy'n amgylchynu'r eglwys, â lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Nos drannoeth, roedd côr yr eglwys yn canu ym Mhlygain Capel Bethel. Roedd gwasanaeth Cymun Cyntaf y Nadolig noswyl Nadolig am 9:00 yr hwyr y tro hwn â'r gwasanaeth Cymun ddydd Nadolig am 9:30 fel yr arfer.

**Cymdeithasu**

Cafwyd cymdeithasu dros ginio Nadolig yr eglwys yng Nghlwb Golff Cyncoed ac yn ystod ymweliad diddorol, gyda chinio, â Chrochendy Nantgarw.

**Y Banc Bwyd**

Casglwyd llawer o fwyd a nwyddau hanfodol i'r elusen hon.

**Coffi a Chlonc**

Daeth nifer dda i neuadd yr eglwys i sgwrsio tros baned fore Sadwrn 20 Ionawr. Bydd y nesa ar 17 Chwefror rhwng 10:30 a 12:00.

**Gofal ein Gwinllan**

Tros Zoom, ddydd Sadwrn, 20 Ionawr, bu'r Athro Ceri Davies yn trafod 'Y ddau John Williams o Ystrad Meurig – clasurwyr, ysgolfeistri, clerigwyr' a'r Athro Huw Pryce yn trafod - ' Ab Ithel, Harry Longueville Jones a Gorffennol Cymru.'

**Datganiad ar yr Organ**

Bydd y nesaf yn Eglwys Dewi Sant amser cinio, ar 9 Chwefror gan David Geoffrey Thomas, Cadeirlan Llandaf.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Paned wedi'r Offeren**

Mae cynulleidfa'r Offeren Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant nawr wedi gallu ailsefydlu'r arfer o gynnig paned ar ôl yr Offeren ar Sul olaf y mis. Mae hyn yn gyfle gwerthfawr i ni gymdeithasu â'n gilydd, gan taw dim ond unwaith y mis y byddwn yn ymgynnull i addoli yn Gymraeg.

**Offeren Dydd Gŵyl Dewi**

Bydd Offeren Dydd Gŵyl Dewi eto eleni yn Eglwys Teilo Sant ar nos Wener 1 Mawrth am 6.00 yr hwyr. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni i ddathlu dydd gŵyl ein nawddsant. Bydd paned wedi'r Offeren a gobeithio bydd ein cyfeillion o Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn dod atom ac yn aros am sgwrs yn y neuadd lan llofft.

**Pigion o'r Synod yn Rhufain**

Roedd neuadd Y Gonglfaen yn llawn ar 24 Ionawr i roi cyfle i bobl yr Esgobaeth glywed am y Synod a gynhaliwyd yn Rhufain yn mis Hydref. Daeth bywgraffydd y Pab, y Dr Austin Ivereigh, i roi darlith ar ddechrau'r prynhawn; yna cafwyd cyfle i sgwrsio mewn grwpiau yn ogystal â holi'r gŵr gwadd.

Roedd Dr Ivereigh yn un o'r lleygwyr a fu'n bresennol yn y Synod ac felly'n gallu adrodd sut roedd y Synod wedi'i drefnu. Roedd tua chwarter y cynrychiolwyr yn lleygwyr – y tro cyntaf erioed i Synod o Esgobion gynnwys pobl oedd heb eu hordeinio. Mae hyn yn dangos awydd y Pab Ffransis i ymestyn y drafodaeth ar y lefel uchaf i fwy o aelodau'r Eglwys. Pwyslais Dr Ivereigh oedd gweledigaeth y Pab Ffransis i ni fod yn barotach i genhadu, a hynny drwy gynnal sgyrsiau 'yn yr ysbryd'. Yn lleol, gallwn ddysgu gan blwyfi, ardaloedd a gwledydd eraill drwy glywed eu profiadau – rhaid gwrando ar lais yr Ysbryd yn siarad drwy holl bobl Duw. Cafwyd golwg ddiddorol ar fwriad y Pab i greu 'Eglwys Synodaidd' gan un sy'n agos iawn ato.

Offeren y Sul: Eglwys Teilo Sant:
25 Chwefror, 4 30pm
Offeren Sul y Blodau: Eglwys Teilo Sant: 24 Mawrth 4.30pm
Mae'r gwasanaeth ar gael ar lif byw yr eglwys: www.stteilos-olol.co.uk

## BETHEL, RHIWBEINA

**Oedfaon**

Yn ystod mis Rhagfyr cawsom ddigon o gyfle i ganu carolau ac i fwynhau'r naws arbennig wrth nesáu at y Nadolig.

Ar 17 Rhagfyr cyflwynwyd Stori'r Geni gan y plant a hyfryd oedd gweld eu mwynhad wrth berfformio yn eu dillad lliwgar.

Wedyn roedd cyfle i'r aelodau gymryd rhan a chawsom fwynhau gwrando ar gerddi a darlleniadau o'r Beibl. Dyma oedd y cyfle i gôr y capel ddisgleirio wedi'r holl ymarferion yn ystod mis Tachwedd. Diolch i Gwilym Roberts am ei frwdfrydedd yn ein harwain.

Wedi'r gwasanaeth roedd pawb yn barod am y parti ac ymweliad Sion Corn. Diolch i Hefin Jones am chwarae ei ran mor dda.

Roedd yn braf gweld y capel yn llawn y bore arbennig hwnnw.

Roedd y capel yn llawn eto, os nad yn orlawn ar nos Lun 18 Rhagfyr pan gynhaliwyd gwasanaeth y Plygain dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Yn dilyn bwrlwm y Nadolig mae ein gwasanaethau yn parhau fel arfer - bob bore Sul am 10.15. Braf yw gweld wynebau newydd yn y capel ac mae croeso cynnes i bawb.

**Cyfarchion**

Rydym yn danfon dymuniadau gorau at Mair Owen a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ionawr.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Ein Gweinidog fydd yn arwain oedfaon 4, 11 a 18 Chwefror ac edrychwn ymlaen eto at ei arweiniad ysbrydoledig. Cynhelir oedfa gymun fore Sul, 4 Chwefror. Byddwn yn croesawu'r Parchg Aled Edward i arwain yr addoliad yn oedfaon Sul olaf y mis (25 Chwefror). Yn ystod oedfaon 4, 18 a 25 Chwefror bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod, gan gynnwys Ysgol Sul i'r plant hŷn ar 18 Chwefror.

**Gweithgarwch y mis**

Cafwyd amrywiaeth ddifyr yn ystod mis Ionawr, gan gynnwys teithiau cerdded wythnosol, sgwrs a chlonc dros baned yng nghartref aelod, Koinonia, Plygain llawen a llwyddiannus, sesiynau gwerthfawr Seilo a Bethania a sgwrs arbennig yn y Gymdeithas am hanes taith Hefin a Bethan Jones i Oberammergau.

Parhau fydd yr amrywiaeth ym mis Chwefror. Bydd PIMS yn cyfarfod nos Sul, 4 Chwefror (17.00). Bydd dau gyfarfod o Bethania (13 a 27 Chwefror am 19:00) yng nghartref aelod. Cynhelir *San Ffolant a Lludw*, y cyfarfod cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd dros dymor y Grawys, yn y festri nos Fercher, 14 Chwefror (19:00). Bydd y Gymdeithas yn croesawu Catrin Stevens nos Fawrth, 6 Chwefror; trafod eu gwaith y bydd Elgan Davies, Trystan Francis a Wendy Roberts-Jones nos Fawrth, 20 Chwefror (19:30). Bydd cyfle i gymdeithasu ymhellach yn Koinonia yn dilyn oedfa hwyrol 18 Chwefror.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Robin Lewis Blainey-Wilson, mab i Huw a Josie ac ŵyr cyntaf i Gareth Blainey. Dymuniadau da i'r teulu.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Nansi Cêt Williams, merch Catrin a Delwyn, chwaer fach Megan ac wyres Marged a Brian, yn oedfa foreol gyntaf y flwyddyn newydd. Pob dymuniad da i'r teulu.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Oedfa Blygain**

Eleni am y tro cyntaf yn ein hanes, cynhaliwyd oedfa Blygain ar nos Sul cyntaf y flwyddyn newydd. Braf iawn oedd cael croesawu llawer i ymuno â ni a mwynhau clywed rhai o'r hen garolau gwych yma'n cael eu canu. Mae'n dda gweld bod poblogrwydd y Plygain yn cynyddu.

Wrth gwrs nid hanes y Geni'n unig a geir yn yr hen garolau yma ond holl rychwant hanes iachawdwriaeth gan ddechrau yn Genesis a gorffen yn llyfr y Datguddiad. Maen nhw'n grynodeb gwerthfawr o'n cred fel Cristnogion.

**Wythnos Weddi**

Neilltuwyd trydedd wythnos 2024 yn wythnos o weddi i'r eglwys, gyda phwyslais ar wahanol anghenion bob dydd. Fe'n hanogwyd i weddïo dros ein tystiolaeth fel eglwys gan ofyn am fendith Duw ar y pregethu ac ar ein tystiolaeth fel Cristnogion unigol. Buom yn gweddïo dros eglwysi eraill ein dinas ac yn wir am waith yr Efengyl drwy'r byd.

Da oedd cofio gyda'n gilydd mai gwaith Duw yw'r cyfan ac mor bwysig yw gweddïo drosto.

**Bore Siarad Cymraeg**

Cynhelir y sesiynau yma ar gyfer siaradwyr Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch) ar yr ail Sadwrn ym mhob mis yn yr Hyb ym Mhen-y-dre, Rhiwbina. Bydd y sesiwn nesa fore Sadwrn, 10 Chwefror am 10.30a.m pan fydd Lynne Davies yn siarad. Croeso cynnes i bawb.

## EBENESER

**Colled**

Trist oedd clywed am farwolaeth Eira Jones, aelod annwyl a ffyddlon, ar Ragfyr 18fed yn 91 mlwydd oed. Bu gwasanaeth o ddathlu ei bywyd ar Ionawr 26ain yng Nghapel Briwnant, Amlosgfa Thornhill. Ar ddymuniad Eira ac er cof annwyl amdani gwahoddwyd cyfraniadau ar gyfer Cymorth Cristnogol a Thŷ Hafan.

**Rygbi Caerdydd**

Yn ystod misoedd Rhagfyr ac Ionawr bu criw o Ebeneser yn gwylio tîm rygbi Caerdydd yn chwarae yn erbyn Caerfaddon a Harlequins. Er bod Caerdydd wedi colli roedd y ddwy gêm yn gyffrous gyda digon o geisiau. Mae arwyddion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Diolch i John Hayes am drefnu.

**Casglwyr Sbwriel Ebeneser CSE**

Mae CSE yn cwrdd unwaith y mis am 10:00 ar fore Sadwrn. Mae'r codi sbwriel yn para rhyw 45 munud ac yna bydd cyfle i gymdeithasu dros baned neu ddisgled mewn caffi cyfagos. Os oes diddordeb 'da chi ymuno â'r tîm a grŵp WhatsApp CSE, cysylltwch â John Hayes (john_hayes1@hotmail.com). Mae croeso i bawb. Bydd CSE yn casglu nesaf: 24.02; 30.03; 04.05; 08.06 a 13.07.

**Angor Grangetown**

Mae Angor yn parhau gyda'r gwaith o hyrwyddo'r Efengyl a gwasanaethu yn yr ardal. Wrth gamu i 2024 y bwriad yw ymgasglu, cyd fwyta, cymdeithasu, gwahodd ffrindiau a mwynhau cwmni ein gilydd. Mae croeso i bawb ymuno. Oherwydd bod cynnydd yn y rhai sy'n mynychu ac angen lle mwy pwrpasol i wneud gwaith plant rydym yn chwilio am leoliad newydd. Dilynwch ni ar X (Trydar) @AngorGrangetown.

**Pregethau**

Os hoffech wrando ar bregethau Ebeneser mae nhw ar wefan Soundcloud.com Gosodir hwy yno'n wythnosol. Chwiliwch am Ebeneser Caerdydd.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul [YS]**
am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol:
Chwefror 2024:
4 - Oedfa Gymun - Delwyn Sion
11 – Parchg Robin Samuel (dim YS)
18 – Oedfa'r Cwrdd Merched
25 – Emlyn Davies
Mawrth 2024:
1 – Oedfa Gŵyl Dewi (9:30 a.m.)
3 – Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul

**Paid â Bod Ofn**

Aralleiriad brysiog gen i o gerdd dan y teitl "Ofn" gan Khalil Gibran yw'r isod, ac un y deuthum ar ei thraws tra'n edrych ar fy ffôn lôn rhyw brynhawn gwlyb a gwyntog ym mis Ionawr eleni.

Bryd hynny wyddwn i ddim am yr awdur, ond trwy gyfrwng y we fe ddysgais ychydig amdano – fe'ch siarsaf chwithau i wneud yr un modd os ydi'r chwilfrydedd yn parhau!

Fe rannaf gymaint â hyn â chi – mae crater ar y blaned Mercher (Mercury) wedi ei enwi ar ei ôl!

Ar ddechrau blwyddyn newydd arall, fe apeliodd y gerdd yn fawr ataf, gan gynnig ychydig o gysur, cryfder a gobaith yn wyneb yr holl dristwch sy'n amgylchynu'n byd ar hyn o bryd – wn i ddim a deimlwch chi 'run fath a mi?

Ac onid 'Paid â bod ofn' yw neges un o ganeuon eiconig y grwp Eden.

Mae'n talu weithiau i wag-swmera yng nghwmni ffôn lôn ar foreau gwlyb a gwyntog ym mis Ionawr!

*"Dywedir bod afon, cyn ymuno a'r môr*
*Yn crynu gydag ofn.*
*Mae hi'n edrych 'nôl ar y llwybr a deithiwyd,*
*O gopaon y mynyddoedd,*
*Ar hyd ffyrdd troellog sy'n croesi'r coedwigoedd a'r pentrefi.*
*Ac o'i blaen*
*Fe wêl gefnfor mor enfawr,*
*A fydd, o ymuno*
*Yn gyfystyr a diflannu'n llwyr o'i fewn.*

*Ond nid oes unrhyw ffordd arall*
*Ni all afon lifo 'nôl*
*Ni all unrhyw un fynd 'nôl*
*Mae'n amhosibl troi 'nôl*

*Mae rhaid i'r afon fentro*
*Wrth ymuno â'r cefnfor*
*Oherwydd dim ond pryd hynny y bydd yr ofn yn diflannu,*
*A dyna pryd y gŵyr yr afon*
*Mai nid diflannu a wna i'r cefnfor,*
*Ond mai hi mwyach fyddai'r cefnfor."*

*Rhodri Gwynn-Jones*

# Merched y Wawr
# Y Felin

Braf oedd croesawu aelodau newydd i'n plith ar ddechrau blwyddyn newydd. Rydym yn cwrdd am 7.30 ar drydydd dydd Iau y mis yn festri Capel y Methodistiaid, Ffordd Kelston yr Eglwys Newydd. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232 am sgwrs bellach.

'Adweitheg' oedd y pwnc dan sylw yn ein cyfarfod Mis Ionawr gyda Elin Prydderch yn sgwrsio yn hamddenol am y modd mae hi wedi cymhwyso i'r lefel uchaf yn y maes i drin plant ac oedolion sydd yn dioddef o gyflyrau fel dibyniaeth ar alcohol, galar, poenau cymalau, gorbryder, iselder, methu beichiogi a llawer mwy wrth weithio ar yr atgyrch (reflexes) yn y traed, y dwylo, clustiau a'r wyneb sy'n cyfateb i holl organau, chwarennau a rhannau'r corff. Therapi holistig yw adweitheg sy'n ymdrin â'r corff a'r meddwl ac sy'n medru rhoi lles corfforol a meddyliol ochr yn ochr â gofal meddygol confensiynol i helpu'r corff i ddarganfod ei gydbwysedd unwaith yn rhagor er mwyn cychwyn ar y broses o wella ei hun.

Nododd bod y traed a'r dwylo yn debyg i fapiau o'r corff a bod modd darganfod popeth sydd angen ei wybod am sut mae'r holl gorff yn gweithio yn y traed e.e. mae modd darganfod os oes rhwystr i egni'r corff ac mae ystyried siâp a lliw y droed hefyd yn amlygu llawer. Mae troed lydan yn amlygu person prysur sy'n hoffi gwneud, tra bod troed cul yn dangos person sy'n dueddol o ofyn i eraill wneud; mae bodiau gwyn y traed yn amlygu bod y person o dan straen a bodiau o liw tywyll yn symptom o iselder. Mae'n faes hynod o ddiddorol sy'n werth i ni gyd ei ystyried pan rydym yn teimlo o dan straen, Diolchwyd yn fawr i Elin am noson hynod o hwylus yn ei chwmni, a beth am roi cynnig ar sesiwn Adweitheg drwy gysylltu ag Elin un ai drwy ei e-bostio ar holisticmenopausecoach.com neu ffonio 07866 313394.


*Elin Prydderch ac Eiry Davies*

# Gwilym Morgan

## Enillydd Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod yr Urdd yn lansio'r dyddiadur gofidiau cyntaf yn y Gymraeg

Mae Gwilym sy'n dod o Sain Ffagan yng Nghaerdydd, ac yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, eisoes yn dylunio a gwerthu llyfrau nodiadau dwyieithog wedi'u hysbrydoli gan deithio a 'dyddiaduron gofidiau' ar ei is-safle Amazon, GM Notebooks, ers 2021. Ond yn ddiweddarach y mis hwn, bydd yn cyhoeddi'r 'dyddiadur gofidiau' cyntaf yn y Gymraeg yn y gobaith y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod cefnogaeth ar gael i ymarfer lles meddwl ac ymwybyddiaeth ofalgar yn yr iaith maen nhw fwyaf cyfforddus ynddi.

**Helpu ei chwaer yn sbardun i'r busnes**

Doedd Gwilym Morgan, sy'n gobeithio astudio Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd y flwyddyn nesaf, erioed wedi dychmygu y byddai'n entrepreneur rhan-amser yn 15 oed. Ond pan oedd ei chwaer fach yn dioddef gyda gorbryder mentrodd greu ei 'ddyddiadur gofidiau' cyntaf.

"Roedd fy mam wedi clywed am fuddion ysgrifennu mewn dyddlyfr ar-lein, ac yn edrych am un ar gyfer fy chwaer, ond roedd y dyddiaduron gofidiau yno i gyd yn ddrud iawn, felly wnes i geisio gwneud un fy hun. Gan ddefnyddio Canva, dyluniais ddyddiadur gofidiau yn ôl chwaeth fy chwaer fach, a'i lenwi ag adrannau oedd o fudd iddi, gan gynnwys lleoedd i gofnodi ei phryderon wythnosol, ei meddyliau dyddiol a'i nodau tymor hir. Fe wnaeth y dyddiadur helpu fy chwaer i reoli ei gorbryder, a rhoddodd y syniad i mi i ddechrau eu gwerthu ar Amazon."

**Cefnogaeth gan y llywodraeth**

Lansiodd Gwilym Morgan GM Notebooks gyda chymorth Syniadau Mawr Cymru, gwasanaeth sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cefnogi unrhyw un rhwng pump a 25 oed i ddatblygu syniad busnes. Daeth o hyd i'r gwasanaeth fis Hydref y llynedd, wrth fynychu diwrnod gyrfaoedd a gafodd ei gynnal gan ei ysgol. Daeth i gysylltiad â'r Cynghorydd Busnes Jason McLoughlin i gefnogi gyda chynhaliaeth a datblygu ei syniad busnes.

"Wnes i erioed fynd ati i fod yn entrepreneur," meddai. "Dechreuodd Llyfrau Nodiadau GM fel ffordd o arbed arian a chefnogi fy chwaer, a buan iawn y daeth yn brosiect hwyliog ar ôl ysgol sydd â'r grym i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae Jason a Syniadau Mawr Cymru wedi bod yn system gefnogaeth wych ac maen nhw bob amser yno i'm helpu i ddatblygu fy syniadau. Maen nhw wedi gwneud rheoli gwaith ysgol a rhedeg busnes gymaint yn haws."

**Synnu nad oes mwy o ddyddiaduron gorbryder Cymraeg**


Mae busnes Gwilym Morgan yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi gweledigaeth i weld nifer y bobol sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050.

"Rwy'n synnu nad oes mwy o ddyddiaduron a deunydd ysgrifennu gorbryder Cymraeg yn gyffredinol," meddai, wrth drafod pam ei bod yn bwysig ychwanegu mwy o Gymraeg at ei fusnes. "Rwy'n eiriolwr enfawr dros gefnogi pobol sydd eisiau defnyddio neu ymarfer eu Cymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd."

Ochr yn ochr â dyddiaduron pryder, mae Gwilym hefyd yn gwerthu ei lyfrau nodiadau ei hun sydd wedi'u hysbrydoli gan deithio, ac wedi eu gorchuddio â ffotograffau gafodd eu tynnu ar ei deithiau, sydd wedi dal diddordeb prynwyr o'r Eidal a'r Unol Daleithiau. Mae e hefyd wrthi'n trafod gyda siopau annibynnol ledled Caerdydd i ddechrau gwerthu ei lyfrau nodiadau.

"Mae'n wych gweld myfyrwyr fel Gwilym yn adeiladu eu busnesau eu hunain, er budd y rhai o'u cwmpas," meddai Jason McLoughlin. "Gall fod yn straen rhedeg busnes ochr yn ochr â chwblhau arholiadau Safon Uwch, ond dyna pam rydyn ni yma, i gefnogi unrhyw un, waeth beth fo'u hoedran neu eu hamgylchiadau, i adeiladu busnes llewyrchus o'u syniad."

*Georgina Cartwright – Working Word*




**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Urdd Gobaith Cymru yn croesawu Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr Ifanc newydd

Mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gadarnhau mai Nia Bennett yw Cadeirydd newydd Bwrdd Ymddiriedolwyr a Rheoli'r Urdd, a bod dau aelod newydd wedi'u penodi yn Ymddiriedolwyr Ifanc yr Urdd, sef Deio Siôn Llewelyn Owen ac Emily Pemberton.

Meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd: "Rydym yn falch iawn o groesawu Nia Bennett i gadeirio Bwrdd yr Urdd ac i adeiladu ar y cyfraniad enfawr a wnaed gan Dyfrig Davies, sydd wedi cefnogi'r Urdd drwy newidiadau Llywodraethiant sylweddol. Hoffwn hefyd estyn croeso cynnes i Emily a Deio i Fwrdd Ymddiriedolwyr y Mudiad.

"Wrth i'r Urdd ddatblygu a ffynnu, mae'r penodiadau newydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau â'n taith o fod yn sefydliad blaengar. Mae amrywiaeth o safbwyntiau, ystwythder yn ein penderfyniadau ac ystod eang o sgiliau perthnasol yn hanfodol i gyflawni ein strategaeth 'Urdd i Bawb'.

Yn dilyn 18 mis o drafod, ymgynghori a diwygio mae strwythur Llywodraethiant newydd yr Urdd eisoes yn ei le. Drwy agor y rhwyd yn ehangach rydym wedi croesawu dros 70 aelod newydd i'n Byrddau Strategol, er mwyn sicrhau fod gennym yr arbenigedd angenrheidiol i gefnogi gwaith y Mudiad wrth symud ymlaen.

Mae parchu lleisiau ein hieuenctid wrth wraidd ein strwythurau newydd, felly yn ogystal â phenodi dau Ymddiriedolwr Ifanc newydd, mae 38% o aelodau ein Byrddau bellach rhwng 18 a 25 oed ac yn ganolog i drafodaethau a chyfeiriad yr Urdd i'r dyfodol."

**Croesawu Cadeirydd newydd yr Urdd**

Ar achlysur ei phenodiad meddai Nia Bennett:

"Rwy'n awyddus i sicrhau bod yr Urdd yn gwbl gynhwysol, yn ymestyn ei gyrhaeddiad ac yn parhau i ddatblygu a gweithredu ar syniadau ein pobl ifanc. Drwy gynnig cyfleoedd i bawb - beth bynnag eu cefndir - i ehangu eu sgiliau a'u profiadau, rydym yn cyfrannu at ddatblygiad Cymry'r dyfodol, a thrwy hynny dyfodol Cymru."



*Deio, Nia ac Emily*

Ganed Nia yn Bolton a'i magu yn Llanfairpwll, Ynys Môn. Wedi cyfnodau o fyw yn Aberystwyth, Y Felinheli a Brwsel, ymgartrefodd Nia yng Nghaerdydd lle magodd dri o blant a gweithio yn y maes Cynhwysiant ac Adnoddau Dynol cyn cael ei phenodi yn Gyfarwyddwr Corfforaethol. Erbyn hyn y mae'n Gyfarwyddwr cwmni *effectusHR*, ac yn ymgymryd â gwaith prosiectau Adnoddau Dynol ac Anogi Uwch Reolwyr. Nid yw yn un i laesu dwylo. Bu iddi ymgymryd â sawl rôl wirfoddol gyda Chylch Meithrin Nant Lleucu yn y Rhath a bu'n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Berllan Deg. Bu'n aelod o Banel Adnoddau Dynol yr Urdd ers 2011 ac yn Gadeirydd y Panel ers 2018. Bu i Ymddiriedolwyr yr Urdd ei chyfethol fel aelod o Bwyllgor Gwaith Gweithredol yr Urdd yn 2020, a chafodd ei hethol fel Ymddiriedolwr yn 2021.

**Penodi dau berson ifanc i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd**

Derbyniodd yr Urdd 22 o geisiadau gan bobl ifanc 18-25 oed ledled Cymru oedd yn awyddus i eistedd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr y Mudiad. Yn dilyn proses ffurfiol o gyfweliadau, mae Emily Pemberton a Deio Siôn Llewelyn Owen wedi'u penodi yn Ymddiriedolwyr Ifanc yr Urdd.

Daw Emily Pemberton o Grangetown, Caerdydd ac mae'n gweithio fel Cydlynydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Gwrth-hiliaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn aelod o'r Urdd ers dyddiau ysgol, cyfrannodd at Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2023 a thrwy hynny bu'n ymweld â Alabama union 60 mlynedd ar ôl ffrwydrad Eglwys y Bedyddwyr ar 16th Street, Birmingham er mwyn adeiladu ar y berthynas rhwng y ddinas a Chymru.

Meddai Emily: "Diolch i'r Urdd, gawsom ni brofiadau unigryw iawn yn Alabama wrth i ni ddysgu a dod yn ymgyrchwyr dros wrth-hiliaeth ar y lefel rhyngwladol. Dydw i methu meddwl am unrhyw brofiad arall gall fod mor werthfawr i unigolyn o fy nghefndir fel menyw Du Cymraeg.

"Dw i wedi fy ysbrydoli gan yr hyn sydd gan yr Urdd ar waith, a hoffwn barhau i godi statws yr agenda cydraddoldeb er mwyn gweithio tuag at Gymru lle mae'n pobl ifanc yn ddinasyddion byd-eang, yn profi cenedl well, ac yn ffynnu."

Yn wreiddiol o gyrion Pwllheli, Penrhyn Llŷn, mae Deio bellach yn byw yn y brifddinas ac ef yw Is-Lywydd Iaith Diwylliant a Chymuned Cymru cyntaf Undeb Myfyrwyr Caerdydd, ble mae hefyd yn ymddiriedolwr o'r Undeb a Phrifysgol Caerdydd. Mae ei brofiadau o fod yn aelod o'r Urdd yn amrywio o glybiau ar ôl ysgol, cystadlaethau chwaraeon, cystadlu yn yr eisteddfod fel disgybl ysgol cynradd a myfyriwr Prifysgol.

Meddai Deio: "Mae cael bod yn aelod o'r Urdd dros y blynyddoedd wedi bod yn amhrisiadwy i fi, ac wrth gamu fewn i'w ail ganrif o fodolaeth, rwyf am weld y Mudiad yn parhau i ffynnu ac ehangu gorwelion cynifer o blant a phobl ifanc â phosib."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Branwen Rhys branwenrhys@urdd.org / 07976 330361.

# Bwytai Merch y Ddinas



## *Blwyddyn Newydd Dda?*

### Lowri Haf Cooke

Un o straeon mawr mis Ionawr oedd y nifer fawr o fwytai oedd yn cau; doedd Caerdydd a'r Fro ddim yn eithriad, gwaetha'r modd. Roedd sawl bwyty a adolygais yma ymysg y rhai wnaeth gau yn ddiweddar, gan gynnwys Kindle ym Mharc Bute (brawd-fwyty Nook a Dusty Knuckle) a Rocket & Rye (busnes cyn-gogydd Arbennig, Pontcanna) yn y Bontfaen. Caewyd hefyd Y Conway - a sôn am gnoc i'r Cymry Cymraeg. Mae gan nifer atgofion o'r dafarn ym Mhontcanna oedd yn agos iawn i Aelwyd yr Urdd. Caeodd Alex Gooch ddau fecws – yn Radur a Threganna – ac ar Heol yr Eglwys Newydd, rhwng Y Waun a Gabalfa, cyhoeddwyd 'y diwedd' ar fariau a bwytai'r Brass Beetle a Society Standard.

Felly beth sydd wrth wraidd y tueddiad truenus hwn, sy'n debygol o barhau? Wel, 'mae'n gymhleth', chwedl Facebook. Ac eto'n syml ar yr un pryd. Mae bwytai annibynnol ar eu gliniau ers tro, o ganlyniad i storom berffaith o ffactorau creulon iawn. Yn gyntaf: Brexit. Cododd prisiau mewnforion bwyd ymhell cyn y cynnydd mewn prisiau egni yn sgil y rhyfel rhwng Rwsia ac Iwcráin. Yna'r pandemig; bu'n rhaid cau am hydoedd dros y cyfnodau clo. Manteisiwyd ar fenthyciadau, a chymorthdaliadau, i gadw pennau uwch y dŵr, a blaidd Covid rhag y drws. Mae'r dyledion mawr hynny yn dal i gael eu had-dalu, ar ben sgil-effeithiau chwyddiant, ac argyfwng costau byw. Mae'r problemau hyn wrth gwrs yn gyffredin i bawb, ond i'r sector lletygarwch, os yw cwsmeriaid yn cadw draw does dim dewis ond mynd i'r wal. Ar ben popeth eleni, cyhoeddwyd cyllideb newydd Llywodraeth Cymru, sy'n gorfod gwneud toriadau o bob math. I fusnesau lletygarwch, mae canran TAW (treth ar werth) yn gur pen cyson, ond o fis Ebrill bydd na dorri ar y cymorth cyfradd busnes hefyd.



Cicchetti

Pam y byddai unrhywun am fentro i fusnes mor wallgo? Anaml iawn mae cyfrifon bwyty yn dangos 'elw' o fis i fis, meddai Cerys Furlong o gaffi Milkwood, Pontcanna, ar BBC Radio Wales. Ond dal i fentro wna nifer. Gan gynnwys caban bwyd-y-stryd Franco o Perugia, yr Eidal, a agorodd ganol mis Ionawr ar Heol Penylan. Es i yno i flasu ei 'panzerotto' mozzarella, saws tomato a pepperoni (bargen am £4); dychmygwch groes rhwng hanner pitsa a samosa blasus iawn! Roedd y pwdinau mor boblogaidd nes y bydd yn rhaid dychwelyd am yr eilwaith i flasu'r pastai hufen fanila a lemwn 'Sporca Muss'.

A sôn am yr Eidal, hoffwn ganmol busnes sydd wedi'i hen sefydlu, ar ochr arall yr afon Taf. Ges i ginio anhygoel am bris andros o resymol toc cyn y Nadolig ym mwyty Cicchetti ar Heol yr Orsaf, Radur. Dau gwrs am £15.99 – ges i lasagne, a thiramisu i bwdin, neu gallwn fod wedi mynd am y salad Caprese i gychwyn, a stecen anferthol am £2 ychwanegol. O'r croeso cartrefol, a'r arogl anhygoel i'r décor amryliw – roedd popeth yn wych. Mae'n andros o hawdd i gymeryd y ffefrynnau lleol hyn yn ganiataol, ond fel y gwelwyd ym mis Ionawr, diflannu wna nhw ar amrantiad os na gofiwn amdanynt.

Gair yn olaf i fenter arall a greodd argraff fawr y llynedd; bwyty 'Gorse' yng nghaffi Ground, Pontcanna fin nos. Lleoliad dros dro yw hwn i fwydlen flasu Tom Waters, un o gogyddion Bryn Williams yn Odette's yn Llundain, a The Fat Duck cyn dychwelyd i ddinas ei fagwraeth. Mae ei fwydlen flasu 'cyfoes Cymreig' yn werth bob ceiniog. Talais £70 am ddeuddeg cwrs, a phrofiad a hanner. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd y bara melys 'Parkerhouse' a menyn gwymon – yna'r cregyn bylchog a saws afal, ffigys a marchruddugl. Ardderchog. Gobaith y cogydd o Gaerdydd yw agor bwyty yn 'nwyrain y ddinas' eleni. Dyna ddwedodd e wrtha i 'nôl ym mis Tachwedd beth bynnag, felly croesi bysedd! Yn y cyfamser chwiliwch am ei nosweithiau 'Gorse' poblogaidd o amgylch y ddinas. Dymuniadau gorau iddo ef, a phob bwyty arall annibynnol. A da chi, ddarllenwyr hoff, cofiwch eu cefnogi!

Franco Streetfood
www.francostreetfood.co.uk

Cicchetti, 8 Heol yr Orsaf, Radyr CF15 8AA; 02920 848773

Gorse www.gorserestaurant.co.uk

*Gwledd* gan Lowri Haf Cooke (Y Lolfa) – ar werth yn eich siop lyfrau lleol.

# Ysgol Plasmawr

**Cyngerdd cerddorfa**
Cymerodd rhai o'r disgyblion ran yng nghyngerdd Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru ar lwyfan neuadd Hoddinott fis Tachwedd. Roedd yn brosiect a drefnwyd ac a arweiniwyd gan un o'n hathrawon cerdd, sef Mr Rhydian Lake.

**Dawns**
Llwyddodd 10 tîm o'r ysgol i gyrraedd rownd derfynol Pencampwriaethau'r Byd yn Llundain. Cawsant eu hyfforddi gan rai o ddisgyblion bl.10 – 13 a Miss Owen a'u noddi gan 4 cwmni. Bu'r timau i gyd yn llwyddiannus ac maent nawr yn edrych ymlaen i gystadlu eleni ym Mhencampwriaethau Cymru, Pencampwriaethau Ysgolion Cymru, Eisteddfod yr Urdd a Phencampwriaethau Prydain.

**Canwr Ifanc**
Cynhaliwyd cystadleuaeth Cantorion Ifanc Ysgol Plasmawr eleni ar nos Fercher 24ain o Hydref. Y beirniaid oedd Meinir Richards a Siwan Henderson. Mabli Rogers Bl.9 oedd enillydd y gystadleuaeth iau, a Ffred Hayes Bl.13 y gystadleuaeth hŷn.

**Gwasanaeth Nadolig**
Cafwyd gwasanaeth Nadolig gan ddisgyblion a staff yr ysgol yn Eglwys St.Catherine, Pontcanna ar nos Iau olaf y tymor. Llwyddwyd i greu naws Nadoligaidd hyfryd gyda chyfraniadau arbennig gan gorau a phartion yr ysgol, darllenwyr, unawdwyr, ensemble cystadleuaeth cantorion ifanc y flwyddyn, a'r band chwyth. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd tuag at y £1,000 a godwyd i elusen 'Maggies Centres'.

**Taith Hanes UDA Hydref 2023**
Yn Hydref 2023, teithiodd criw o'r ysgol i Efrog Newydd a Washington DC. Bu'r daith hon yn gyfrwng i addysgu'r disgyblion am hanes America. Cafwyd cyfleodd i ymweld nid yn unig â'r mannau hanesyddol fel Ynys Ellis, y Tŷ Gwyn, mynwent Arlington a'r cofebion i Lincoln, Martin Luther King Corea, Fietnam a'r Ail Ryfel Byd ond hefyd y mannau poblogaidd fel Central Park, Times Square, 5th Avenue a'r Hard Rock Cafe.







# Croeso Trebiwt

Mae Croeso Trebiwt yn gweithio gyda *Citizens UK* i groesawu, cartrefu a chefnogi teulu o ffoaduriaid fel rhan o Gynllun Nawdd Cymunedol Y Deyrnas Unedig.

Mae ein Tîm Craidd yn cynnwys aelodau o Eglwys y Tabernacl, Eglwys St Mary's ac Ysgol Gynradd St Mary's. Yn dilyn llawer o anawsterau rydym nawr wedi ein derbyn gan y Swyddfa Gartref i groesawu teulu.

Rydym eisioes wedi dechrau ar y broses anodd iawn o ddod o hyd i dŷ i'w rentu neu i'w brynu yn ardal Butetown. Fe fydd y swm fydd y teulu yn ei dderbyn mewn budd-dal tai tipyn yn llai na chostau rhentu cyfartalog erbyn hyn. Bydd rhaid talu'r gwahaniaeth gydag arian o'n cyllideb. Golyga hyn y bydd angen i ni ddechrau codi arian eto fel modd i ni gefnogi'r teulu nes eu bod wedi setlo ac yn annibynnol.

Mae yna sawl ffordd y gallwch helpu:

- Rhowch wybod i ni am dai addas i'w rhentu neu i'w prynu yn ardal Trebiwt.
- Cyfrannwch i Croeso Trebiwt.
- Cyfrannwch eitemau i'r tŷ (bydd hyn yn ddibynnol ar y tŷ, fe allai fod wedi'i ddodrefnu neu ddim. Os gwelwch yn dda cysylltwch â ni cyn cyfrannu eitemau).

Mwy o wybodaeth gan Bill a Ruth Davies, Cyd-lynwyr Tabernacl Prosiect Croeso Trebiwt:

Symudol: 07717 837470
E-bost: billd.d2@tiscali.co.uk

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd, bydd rhai unigolion yn meddwl bod eu materion ariannol mewn trefn, tra bydd eraill yn meddwl *'Mae gwir angen i mi roi trefn ar hyn'*. Rydym wedi dod ar draws rhai unigolion a ddechreuodd y broses o ddrafftio eu hewyllysiau dros 5 mlynedd yn ôl, ac maent yn dal heb eu cwblhau a'u llofnodi!

1. Os nad oes ganddoch **ewyllys clir a chyfredol**, bydd eich ystâd yn cael ei rhannu yn unol â rheolau diffyg ewyllys (*intestacy*) sydd, yn y bôn, yn dilyn y llinell waed *(bloodline)*. Gall hyn arwain at bartneriaid di-briod yn derbyn dim, tra bod aelodau'r teulu yn elwa p'un a ydych am iddynt wneud hynny neu beidio. Bydd hyn yn gadael llanast i'ch teulu i'w ddatrys.
2. Dyma enghraifft o beth all ddigwydd os nad yw'ch materion ariannol mewn trefn:

   Ar ôl ysgariad chwerw ac yna ail briodas hapus iawn, ni ddiweddarodd y gŵr ffurflen *expression of wishes* ei bensiwn. Bu farw'r gŵr yn sydyn a hawliodd y wraig a ysgarwyd gyntaf ei bensiwn, gan mai hi oedd wedi ei henwi ar y ffurflen.
3. Os oes ganddoch chi asedau sylweddol, mae angen i chi gynllunio a sicrhau bod o leiaf un person yn ymwybodol o'ch **sefyllfa Treth Etifeddiaeth**. Os byddwch yn cynllunio'n ddigon cynnar, gall hyn arwain at ostyngiadau sylweddol yn eich bil posibl o Dreth Etifeddiaeth.
4. Y dogfennau pwysig eraill i'w trefnu, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd dros oedran pensiwn, yw **Atwrneiaeth** (Power of Attorney) **Ariannol ac Iechyd** sy'n caniatáu i'ch teulu / ffrindiau agos ofalu am eich materion os byddwch yn syrthio'n ddifrifol o sâl.
5. Ydych chi wedi gwneud **rhestr o'ch asedau ariannol** ac a yw y perthnasau / ffrindiau yr ydych yn ymddiried fwyaf ynddynt yn gwybod ble mae'r rhestr yn cael ei chadw? Mewn achos o farwolaeth gynnar / analluogrwydd bydd hyn o leiaf yn sicrhau bod eich holl asedau ar gael i'ch ystâd.

   Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda'r cynnydd parhaus yn y defnydd o fancio ar-lein. Fel arall, efallai y bydd eich cynilion yn dod yn rhan o'r biliynau o bunnoedd o asedau sydd heb eu hawlio ac sy'n eistedd yn segur gyda'r sefydliadau ariannol mawr.
6. Gwiriwch bod eich **cyfrifon cynilo** yn talu cyfradd llog dderbyniol – does dim esgusodion dros adael symiau mewn cyfrifon sy'n talu'n isel, o ystyried y cynnydd yng nghyfraddau llog dros y 18 mis diwethaf.
7. Gwiriwch eich **cofnod Yswiriant Gwladol** a'ch **rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth** ar wefan gov.uk i gywiro unrhyw wallau nawr, cyn i chi ymddeol.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*


## Nofel newydd Llwyd Owen yn 'Gampwaith'

Mae *Helfa* yn nofel ddirgelwch garlamus sy'n dod â stori'r Ditectif Sally Morris i ben mewn ffordd ddramatig iawn. Disgrifir y nofel olaf yn nhrioleg Llwyd Owen fel "campwaith" gan Manon Steffan Ros. Dywedodd yr awdur "darllenais drwy fy mysedd. O'n i methu rhoi hi lawr".


Gan ddychwelyd am y seithfed tro i dref ddychmygol Gerddi Hwyan, mae *Helfa* yn dilyn hanes Ditectif Sarjant Sally Morris a'i phartner gwaith, Tej Williams, wrth iddynt fynd ar drywydd lladron cŵn sydd wedi bod yn codi cywilydd ar Heddlu Gerddi Hwyan ers misoedd lawer. Mae bywyd cartref Sally yn ddedwydd, tra bod Tej wedi cwympo mewn cariad â gyrrwr tacsi lleol o'r enw Hels. Ond, yn ddiarwybod i bawb, mae bwystfil yn llech-hela'r ardal, gyda'i frîd ar anhrefn dialgar… ac mae Sally a Hels ar ei gach-restr.

Mae'r awdur profiadol yn cyflwyno'r cyfan yn ei arddull unigryw, gan ddadlennu'r gwir trwy blethu'r straeon cyfochrog, a chyrraedd uchafbwynt cyffrous a fydd yn sicr o foddhau dilynwyr Llwyd Owen a sicrhau darllenwyr newydd.

**Mae *Helfa* gan Llwyd Owen ar gael nawr (£9.99, Y Lolfa).**



## Rhif: 239



**Ar Draws**
1. Cogio yn sydyn fod yna le i guddio (2,1.9)
7. '----- gweina ddwyfol Un,
 Heb ei ofyn' (ER) (5)
8. 'Ym mhob cyfyngder, ing, a phoen
 O! ----- ----- wrthod fi' (EE) (3,2)
9. 'Dau yn unig oedd yn y -----
 Sammy Rose Bank a Ned Tŷ Glas'(TRH) (3)
10. Ai yn Lôn y Comed mae llety'r pluog? (9)
11. Ymdrochi heb ddechrau meddwl am y ceirw (6)
12. Tynnwr lluniau (6)
15. A yw Anti Dilys yn ymddwyn yn dderbyniol? (9)
17. Cefnu ar yr awch am bwff o wynt (3)
18. Dannod y delwi (5)
19. A all sêt droi'n silff? (5 )
21. 'Mae dail y coed ----- ----- -----
 Yn murmur yn yr awel' (TGJ) (2,6,4)

**I Lawr**
1. Mae'n dilyn y cystadlu (1,11)
2. Gwasgu'r ynfytyn i'r pren (3)
3. Hapchwarae yw rhoi hanner cant mewn troll (6)
4. Da i ddim ynt mewn difodiant (9)
5. A oes ryw lo ewn yn dilyn hon? (5)
6. 'Mae ----- ----- ----- -----
 Yn cloi pob nant a llyn' (JME) (3,1,5,3)
7. ' Gwêl uwchlaw cymylau -----,
 O! fy enaid, gwêl y tir' (WT) (5)
10. Corws Esau yn cael derbyniad cynnes (9)
13. Mae'n ofnadwy yn llannerch y llynnoedd (5)
14. Pwt o englyn ar ' Y Fflach' (6)
16. Y ffŵl dociodd ein pluog lwyni ni ar yn ail (5)
20. Rhiant o'r gwastadedd (3)

**Enillydd Croesair Rhif 237**
**Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 237**

**Ar Draws:** 6. Corachod 7. Ffawydd 9. Golchi 10. O'r golwg 12. Llawysgrifau 14. Campweithiau 18. Truenus 19. Bywyd 21. Dywed 22. Materol

**I Lawr:** 1. Gofod 2.Tanchwa 3. Nod 4. Daioni 5. Cyhwfan 8. Pregethu 11. Hyderus 13. Caerdydd 15. Pleser 16. Amynedd 17. Tywod 20. Tad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Y Coleg Cymraeg a CBAC yn cyhoeddi enillwyr Bwrsariaeth Gareth Pierce

Mae dau o'r tri myfyriwr fydd yn derbyn bwrsari gwerth £3,000 sy'n cael ei gynnig i fyfyrwyr is-raddedig sy'n astudio o leiaf draean o'u cwrs gradd Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Y ddau yw Efa Maher a Steffan Môn.

Daw Efa Maher o Gasnewydd ac mae'n frwdfrydig iawn dros yr iaith Gymraeg ac yn falch ei bod yn gallu astudio traean o'i chwrs 'Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth' trwy gyfrwng y Gymraeg. Meddai Efa:

"Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod bwysig i fi, nid yn unig i gadw a chynnal fy sgiliau ieithyddol, ond hefyd o ran fy hunaniaeth. Mae Mathemateg fel pwnc yn cynnig posibiliadau eang o ran gyrfa felly bydd adeiladu terminoleg yn y ddwy iaith yn ddefnyddiol pan fyddaf yn gweithio yn y maes yn y dyfodol. Rwyf mor ddiolchgar i'r Coleg Cymraeg ac i CBAC am y fwrsariaeth yma"

Syrthiodd Steffan Môn, 28, o Gaerdydd mewn cariad gyda Mathemateg yn ei 20au ar ôl gwylio fideos You Tube a darllen llyfrau am Fathemateg yn ei amser hamdden. Meddai:

"Roeddwn ofn Mathemateg yn yr Ysgol, ond yn y blynyddoedd diwethaf fe wnes i ail-gydio yn y pwnc a sylweddoli gymaint rwyf yn ei hoffi. Yn dilyn fy ngradd rwy'n gobeithio mynd ymlaen i astudio doethuriaeth er mwyn bod yn ddarlithydd Mathemateg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gobeithio y bydd fy stori yn helpu eraill i beidio rhoi'r gorau iddi. Does dim ffiniau nac amserlen i addysg, mae'n weithred gydol oes.

Cafodd y bwrsari ei sefydlu yn 2022 er cof am Gareth Pierce, a fu'n Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyn Brif Weithredwr Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) cyn iddo farw yn 2021.

Am fwy o wybodaeth am fwrsariaeth Gareth Pierce, ac i wirio pa gyrsiau sy'n gymwys, ewch i wefan y Coleg Cymraeg.

## Cyrsiau newydd a gweithgareddau gwyliau

Awyddus i olrhain hanes eich teulu ond ddim yn gwybod lle i ddechrau? Eisiau tyfu blodau a llysiau eleni ond yn teimlo'n hollol ddi-glem? Bydd ein cyrsiau hamddenol newydd sbon yn eich rhoi chi ar ben ffordd. Maen nhw'n berffaith ar gyfer y rhai sydd eisiau ehangu eu gorwelion heb orfod poeni am wneud gwaith cartref na sefyll arholiadau!

### Hanes Cerdded yng Nghymru

Tair sgwrs ar Zoom yn seiliedig ar gynnwys llyfr cyn-Brif Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru Andrew Green, eto i'w gyhoeddi, fydd yn dwyn y teitl *Voices on the path: a history of walking in Wales.* Mae'r gyfrol yn cwmpasu pob agwedd ar gerdded trwy'r oesoedd, o gynhanes hyd heddiw. Bydd y cwrs yn cynnwys sesiynau ar bererindod; gorymdeithio a phrotestio a rhai o'r unigolion sydd wedi gadael eu marc wrth gerdded yng Nghymru.

Yn dechrau nos Lun, 12 Chwefror am 7.30 ac yn rhedeg am 3 wythnos. Cost: £10.

### Hel Achau

Mewn cwrs 6 wythnos yn Hyb Rhiwbeina, cewch gyngor ar sut i fynd ati i olrhain hanes eich hynafiaid. Pa wefannau sydd orau? Sut mae dod o hyd i wybodaeth drwy ddefnyddio papurau newydd ar-lein? Mewn sesiynau ymarferol, cewch gyfle i ymarfer drwy edrych ar enghreifftiau parod cyn symud ymlaen i greu eich coeden deuluol eich hunain.

Yn dechrau dydd Mercher, 21 Chwefror am 12.00 ac yn rhedeg am 6 wythnos. Cost: £30.

### Sgwrs y Mis

Yr awdur Dr Jon Gower fydd yn ymuno â ni y tro hwn i drafod 'Bywyd drwy Lyfrau'. Pa gyfrolau sydd wedi dylanwadu fwyaf arno fe a pha lyfrau ddylai fod ar ein rhestr ddarllen ni eleni?

Nos Iau, 22 Chwefror am 7.30 ar Zoom.
Rhad ac am ddim.

### Mewn Tiwn

Byddwn yn cynnal ein cyngherddau bob yn ail fis o hyn ymlaen a'r delynores Bethan Nia fydd yn ein diddanu yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina ar ddydd Llun olaf mis Chwefror. Bydd y gyngerdd yn dechrau am 11.30 ond dewch yn gynnar i fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw.

Bore Llun, 26 Chwefror. Drysau'n agor am 11.15.
Rhad ac am ddim.

### Garddio i Bawb

Bydd y cwrs byr yma'n cynnig cyngor a syniadau i bawb sy'n mwynhau bod yn yr ardd. Does dim ots os ydych chi'n garddio am y tro cyntaf neu'n arddwr proffesiynol, yn tyfu mewn potiau neu mewn gardd fach neu fawr! Dewch i holi cwestiynau, rhannu profiadau a pharatoi'r pridd ar gyfer tymor llwyddiannus yn yr ardd.

Yn dechrau nos Iau, 29 Chwefror yn Festri Salem, Treganna am 7.00 am 3 wythnos.
Cost: £30.

### Siaradwyr Newydd

Gwenllian o 'Dysgu Cymraeg Caerdydd' fydd wrth y llyw yn ein bore coffi misol i ddysgwyr ar Zoom – bore Gwener ola'r mis am 10.30. Dewch i ymarfer siarad Cymraeg!

Bore Gwener, 23 Chwefror am 10.30 ar Zoom.
Rhad ac am ddim.

I ymuno ag un o'r cyrsiau neu weithgareddau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

### Gwyliau Hanner Tymor

Gyda'r gwyliau ysgol yn prysur agosáu, cofiwch gadw lle i'ch plentyn ar ein cynllun Gofal. Cynhelir sesiynau yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd a'r gost yw £32 y dydd. Bydd ein cynllun chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, hefyd yn rhedeg yn ystod gwyliau hanner tymor mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Gweler y poster am fwy o fanylion am sesiynau Caerdydd. - tud. 11.

### Cadwch y dyddiad:

Sgwrs y Mis: Mawrth – nos Iau, 14/03/24 yng nghwmni Dr Miriam Elin Jones

Ymweliad ag Amgueddfa Cymru, Caerdydd – dydd Mawrth, 19/03/24

Gweithgareddau i ddysgwyr a'u teuluoedd yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd ar y cyd â Dysgu Cymraeg Caerdydd ac Amgueddfa Cymru – prynhawn Sadwrn 23/03/24

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org

Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg

https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/

E-bost :post@mentercaerdydd.cymru

Ffôn: 029 2068 9888

